# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4(a) - Cofnodion cyfarfod 30 Mehefin, 2014 | 5 |
| 4(b) - Cofnodion cyfarfod arbennig 14 Gorffennaf, 2014 | 9 |
| 4(c) - Cofnodion cyfarfod arbennig 29 Gorffennaf, 2014 | 14 |
| 6 - Cais am Oddefeb gan y Cynghorydd Mike Stevens | 19 |
| 7 - Rhaglen Waith | 20 |
| Atodiad 1 | 21 |
| 8 - Honiadau yn erbyn Aelodau | 22 |
| 9 - Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2013-14 | 27 |
| Atodiad 1 | 28 |
| 10 - Gwe-ddarlledu | 42 |
| Atodiad 1 | 43 |
| Atodiad 2 | 44 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**11.00am, DYDD LLUN, 29 MEDI, 2014**

**11.00am, MONDAY, 29 SEPTEMBER, 2014**

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 23/09/14*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership**

**Aelodau Etholedig / Elected Members (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen
[sedd wag / vacant seat]

**Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) / Independent Members (with a vote) (5)**

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

**Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) / Community Committee Member (with a vote) (1)**

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

(a) 30 Mehefin, 2014 (ynghlwm);
(b) 14 Gorffennaf, 2014 (ynghlwm);
(c) 29 Gorffennaf, 2014 (ynghlwm).

**5. DIWEDDARIAD AR AIL-STRWYTHURO'R GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

Cyflwynir adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro.

**6. CAIS AM ODDEFEB GAN Y CYNGHORYDD MIKE STEVENS**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**7. RHAGLEN WAITH**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2013/14**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**10. GWE DDARLLEDU**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU, 30.06.14

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Miss Margaret E.Jones, Mr Sam W.Soysa a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Ms Linda Byrne (Aelod Annibynnol).

Ar ddechrau'r cyfarfod, cyfeiriodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith at ymddiswyddiad y Cynghorydd Charles Wyn Jones o'r Pwyllgor Safonau a chytunwyd i anfon gair o ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y pwyllgor dros nifer o flynyddoedd. Yn unol â'r drefn, byddai'r Cyngor llawn yn penodi olynydd iddo.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Michael Sol Owen ar gael ei ethol yn Faer Pwllheli.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. MATER BRYS – GWRANDAWIADAU'R PWYLLGOR SAFONAU.**

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater brys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd y bwriedid cynnal gwrandawiadau i ddau achos yn ystod mis Gorffennaf.

Nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'r mater yn cael ei drafod fel eitem eithriedig ar ddiwedd y cyfarfod.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Ebrill a 12 Mehefin, 2014 fel rhai cywir.

<u>Mater yn codi o gofnodion 12 Mehefin, 2014</u>
<u>Eitem 4 – Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar Ymchwiliad i Gŵyn yn erbyn y Cynghorydd 'B'</u>

Nododd aelod ei siomedigaeth na chynhelid yr ail wrandawiad yn Nolgellau yn unol â dymuniad mwyafrif yr aelodau. Atebodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y gallai'r pwyllgor benderfynu cyfarfod yn unrhyw le, ond nad oedd o'r farn bod Ystafell 2 na'r Siambr yn Nolgellau yn addas ar gyfer cynnal gwrandawiad.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2013/14

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2013 hyd at 31 Mawrth 2014. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen.

Nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eisoes wedi cyflwyno cywiriadau i'w proffil personol a chyfeiriodd rhai aelodau at fân gywiriadau eraill, sef:-

- Einir Young – "*Mae Einir yn Gyfarwyddwr Cynaladwyedd ym Mhrifysgol Bangor, ...*"
- Cynghorydd David Clay – *"Mae hefyd wedi gorffen gwasanaethu fel cadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru."*
- Cynghorydd Michael Sol Owen – *"Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ..."*

**PENDERFYNWYD**
**(a) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad, yn ddarostyngedig i gywiro'r proffiliau personol fel y nodwyd.**
**(b) Cylchredeg yr adroddiad drwy gyfrwng gwefan y Cyngor (gan drydar pan mae'n mynd ar lein), Rhaeadr, Newyddion Gwynedd, Siop Gwynedd a'r llyfrgelloedd.**

## 5. ADOLYGU GWEITHDREFN GWRANDAWIADAU Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gwahodd y pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar y broses o gynnal gwrandawiadau a'r weithdrefn bresennol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r weithdrefn, gan gynnwys cyfeiriadau at y materion ychwanegol a nodir isod:-**
- **Sicrhau offer / cyfarpar ymlaen llaw ar gyfer cyflwyno tystiolaeth fideo.**
- **Cadw'r opsiwn o gynnal cyfarfod cychwynnol byr i osod y drefn.**
- **Rhoi gwybod i'r aelodau pryd mae'r papurau yn mynd yn gyhoeddus.**
- **Paratoi crynodeb syml o drefn y gwrandawiad.**

## 6. COFRESTR ACHOSION YR OMBWDSMON

Cyflwynwyd er gwybodaeth - y ddau rifyn cyntaf o Gofrestr Achosion yr Ombwdsman.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2014.

Nododd y Cadeirydd y cynhelid cyfarfod nesaf y Fforwm yng Nghyngor Ynys Môn ar 29 Medi, sef yr un dyddiad â'r pwyllgor hwn, a chytunwyd i gychwyn y Pwyllgor Safonau am 10.00am, fel y gallai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fynd yn eu blaenau i'r fforwm.

Gan gyfeirio at benderfyniad y fforwm i ysgrifennu at yr Ombwdsmon i ofyn iddo ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cyfarwyddyd sancsiynau i'w ddefnyddio'n benodol gan Bwyllgorau Safonau, nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y derbyniwyd ymateb gan yr Ombwdsmon yn datgan y byddai'n amhriodol iddo wneud hynny gan ei fod y tu allan i'w bwerau statudol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar faterion a gyfeiriwyd ato. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r cynghorwyr cyn unrhyw wrandawiadau. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 10. MATER BRYS – GWRANDAWIADAU'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith ddiweddariad ar y ddau achos.

### (A) ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GWYNION YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'A'

**PENDERFYNWYD**

- **(a) Gan fod Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon yn methu bod yng Nghaernarfon erbyn 9.30am ar y 14eg o Orffennaf ac wedi gofyn am symud y cyfarfod i 11.00am, bod y Rheolwr Cydraddoldeb ac Iaith yn cysylltu â hi i ofyn a fyddai'n ymarferol iddi fod yno erbyn 10.00am neu 10.30am fan bellaf, ac yn cytuno amser gyda'r Cadeirydd os oes problem.**
- **(b) Bod yr aelodau'n ymgynnull hanner awr ymlaen llaw ar gyfer cyfarfod cychwynnol i osod y drefn.**
- **(c) Os na ellir ymdrin â'r achos mewn un diwrnod, bod y gwrandawiad yn symud ymlaen i ail ddiwrnod.**
- **(ch) Bod pa bynnag aelodau sydd ar gael ar y diwrnod yn dod i'r gwrandawiad.**
- **(d) Gwirio bod yr aelod sy'n destun yr ymchwiliad wedi derbyn yr holiadur a anfonwyd ato drwy bost cofrestredig a'i atgoffa o'r angen i gwblhau'r holiadur cyn gynted â phosib'.**

### (B) ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD 'B'

**PENDERFYNWYD**

- **(a) Symud y gwrandawiad i'r dyddiad wrth gefn, sef 29 Gorffennaf, fel y gall Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon fod yn bresennol.**

**(b) Cychwyn y gwrandawiad am 10.30am, gyda'r aelodau'n ymgynnull am 10.00 ar gyfer cyfarfod cychwynnol i osod y drefn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.30pm.

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 14.07.14

**Yn bresennol:-**

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret Jones, Mr Sam Soysa a'r Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Y Cynghorydd David Clay.

**Hefyd yn bresennol:**

Ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Mrs Katrin Shaw (Rheolwr) a Ms Annie Ginwalla (Swyddog Ymchwilio).
Swyddogion Cyngor Gwynedd – Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Michael Sol Owen ac Eryl Jones-Williams (aelodau etholedig).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CWYNION YN ERBYN Y CYNGHORYDD CHRISTOPHER O'NEAL, CYNGOR GWYNEDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r gwrandawiad a gofynnodd i bawb oedd yn bresennol gyflwyno'u hunain.

Yna, esboniodd y Cadeirydd natur / fformat y gwrandawiad.

(A) Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â thoriad honedig o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd gan y Cynghorydd Christopher O'Neal, a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon am benderfyniad.

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn, ar 16 Ebrill 2013, fod y Cynghorydd Christopher O'Neal wedi methu cadw at God Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd. Honnwyd bod y Cynghorydd O'Neal wedi ffilmio a recordio sgwrs gyda'r achwynydd, a hynny'n gudd, wrth iddi ymgymryd â'i dyletswydd fel swyddog gorfodaeth parcio sifil, yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd, ar 8 Chwefror, a'i fod wedi postio fideo o'r sgwrs hon ar ei dudalen Facebook yn ddiweddarach.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio p'un a oedd y Cynghorydd O'Neal wedi methu cydymffurfio ag unrhyw rai o'r darpariaethau isod o'r Cod Ymddygiad.

*"4. Rhaid i [aelod] –*
*(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt*

*6. Rhaid i [aelod] –*

*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellir yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar [ei] swydd."*

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith, adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon (yn cynnwys clip fideo dan ystyriaeth) a chyflwyniadau llafar gan Ms Annie Ginwalla (Swyddog Ymchwil) a'r Cynghorydd O'Neal.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried ei benderfyniad.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu bod y Cynghorydd Christopher O'Neal wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer fel a ganlyn:-

Canfu'r Pwyllgor bod ymddygiad y Cynghorydd O'Neal gyfystyr â thorri paragraff 4(b) y Cod Ymddygiad.

'Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Credai'r Pwyllgor fod cymhelliad y Cynghorydd yn glodwiw a dymunai nodi nad yw ei benderfyniad yn feirniadaeth o gwbl o'i amcan i amlygu'r problemau a wynebai pobl anabl. Derbynnir hefyd fod ganddo hawl fel cynghorydd i fynegi ei farn wleidyddol ac y diogelir yr hawl hwnnw. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, 'roedd gan y Cynghorydd bryderon ynghylch sut 'roedd gweithwyr unigol y Cyngor yn gweithredu polisïau'r Cyngor. Dylai'r berthynas rhwng cynghorwyr a gweithwyr y Cyngor fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr, a rhoddwyd gweithdrefnau penodol yn eu lle i ganiatáu i gynghorwyr godi pryderon yn uniongyrchol gydag uwch swyddogion ac aelodau (h.y. Penaethiaid Adran ac Aelodau Cabinet). Ni wnaeth y Cynghorydd O'Neal ddilyn y gweithdrefnau hyn; yn hytrach fe gododd ei bryderon yn gyhoeddus ar unwaith. Perodd hyn ofid i'r swyddog gorfodaeth.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried pa gamau i'w cymryd.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu y dylai'r Cynghorydd Christopher O'Neal gael ei geryddu.

'Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

'Roedd y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a chredai'r Pwyllgor y dylid cymryd rhyw gamau gan ei fod wedi effeithio ar y swyddogion dan sylw ac wedi'u tanseilio yn eu gwaith. Fodd bynnag, ni theimlai fod y tor amod yn arbennig o ddifrifol ac ystyriai hefyd gymhelliad y cynghorydd a hefyd ei fod yn gynghorydd cymharol newydd ar y pryd, ac o bosib', ddim yn gyfarwydd â holl weithdrefnau'r Cyngor.

Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor:

(1) Y dylai'r Cynghorydd O'Neal ddileu'r clip fideo a'r postiad o'i dudalen Facebook ar unwaith;

(2) Y dylai'r Cynghorydd O'Neal dderbyn hyfforddiant gan Swyddog Monitro'r Cyngor ar y Cod Ymddygiad a holl Brotocolau'r Cyngor sy'n berthnasol i ymddygiad cynghorwyr.

Cyhoeddodd y Cadeirydd:-

(1) Y gall y Cynghorydd Christopher O'Neal apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau i dribiwnlys apeliadau a dynnir o Banel Dyfarnu Cymru. Bydd rhaid cyflwyno apêl drwy anfon rhybudd ysgrifenedig at Lywydd y Panel Dyfarnu o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd o benderfyniad. Bydd rhaid i'r rhybudd apêl nodi'r rhesymau dros apelio a hefyd p'un a yw'r aelod yn cydsynio i'r apêl gael ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

(2) Y cyhoeddir adroddiad ar ddeilliant yr ymchwiliad yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

(3) Yr hysbysir y Cynghorydd Christopher O'Neal, yr achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn briodol.

(B) Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â thoriad honedig o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd gan y Cynghorydd Christopher O'Neal, a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon am benderfyniad.

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn, ar 31 Mai 2013, fod y Cynghorydd Christopher O'Neal wedi methu cadw at God Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd. Honnwyd bod y Cynghorydd O'Neal wedi ymddwyn mewn modd bygythiol tuag at yr achwynydd ar 17 Mai 2013 wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau fel Swyddog Gorfodaeth Sifil. Honnai'r achwynydd fod y Cynghorydd O'Neal wedi bygwth "rhoi rhaff o amgylch [ei] wddf".

Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio p'un a oedd y Cynghorydd O'Neal wedi methu cydymffurfio ag unrhyw rai o'r darpariaethau isod o'r Cod Ymddygiad.

*6. Rhaid i [aelod] –*

*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellir yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar [ei] swydd."*

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith, adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon (yn cynnwys gwylio rhan o glip CCTV ble dywedwyd y geiriau honedig, a gyflwynwyd fel tystiolaeth fel rhan o adroddiad yr Ombwdsmon) a chyflwyniadau llafar gan Ms Annie Ginwalla (Swyddog Ymchwil), y Cynghorydd O'Neal a Paul Jones (tyst ar ran y Cynghorydd O'Neal).

Fel mater cychwynnol, ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Cynghorydd O'Neal y dylid gwrando ar y gŵyn hon yn breifat gan fod y digwyddiad wedi digwydd yn ei fan gwaith ac y byddai'n cael effaith ar y cwmni yn y dyfodol. Ystyriodd y Pwyllgor p'un a ddylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r trafodion gan y byddai'r wybodaeth yn disgyn o fewn un o'r categorïau a nodir yn Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn benodol. Yn seiliedig ar gais y Cynghorydd O'Neal, penderfynodd y Pwyllgor y gallai'r wybodaeth y cyfeirir ati ddod dan baragraff 14 ("Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol"). Fodd bynnag, ni chredai'r Pwyllgor y byddai unrhyw wybodaeth sensitif neu wybodaeth a allai effeithio'n andwyol ar y busnes yn cael ei datgelu. Wrth ddefnyddio'r prawf budd cyhoeddus, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf, ni chredai'r Pwyllgor bod y budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried ei benderfyniad.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu bod y Cynghorydd Christopher O'Neal wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer fel a ganlyn:-

Canfu'r Pwyllgor bod ymddygiad y Cynghorydd O'Neal gyfystyr â thorri paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad.

'Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Credai'r Pwyllgor fod cynghorydd, wrth ei roi ei hun ymlaen i swydd gyhoeddus, hefyd yn ei roi ei hun mewn sefyllfa ble gall y cyhoedd ddisgwyl safonau uchel o ymddygiad ac ymddygiad a fyddai hefyd yn gosod esiampl i eraill.  Mae'r safon hwn yn berthnasol i gynghorydd p'un a yw'n gweithredu yn ei rôl fel cynghorydd ai peidio, fel y tystiolaethir gan y ffaith bod paragraff 6(1)(a) y Cod yn berthnasol bob amser ac mewn unrhyw gyd-destun. Felly, er bod y Cynghorydd O'Neal yn gweithredu yn yr enghraifft hon fel unigolyn preifat, 'roedd posib' i'w ymddygiad dorri'r cod.

Cydnabu'r Pwyllgor fod gan y cynghorydd, fel unigolyn, yr hawl gyfreithiol i amddiffyn ei eiddo.  Yn ogystal, cydnabu'r Pwyllgor efallai ei fod yn rhwystredig gyda'r sefyllfa a oedd wedi codi, ac yn bryderus y byddai ei eiddo'n cael ei ddifrodi.  Fodd bynnag, nid rôl y Pwyllgor oedd penderfynu ar beth oedd ei hawliau cyfreithiol yn y sefyllfa hon, ond yn hytrach benderfynu p'un a oedd ei ymddygiad, dan yr amgylchiadau, yn torri'r Cod. 'Roedd y Pwyllgor wedi disgwyl i'r cynghorydd ymdrin â'r sefyllfa mewn modd a oedd yn gweddu i ffigwr cyhoeddus.

Gan ystyried holl amgylchiadau'r achos, canfu'r Pwyllgor nad oedd ymddygiad y Cynghorydd O'Neal, wrth fygwth trais corfforol, yn briodol nac yn gymesur yn yr amgylchiadau.  Nid oedd yn fath o ymddygiad yr oedd y Pwyllgor yn ei ddisgwyl gan aelod etholedig ac o ganlyniad mae wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod ill dau.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried pa gamau i'w cymryd.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu y dylid gwahardd y Cynghorydd Christopher O'Neal rhag bod yn aelod o Gyngor Gwynedd am gyfnod o ddau fis.

'Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Ystyriwyd bod bygwth trais corfforol yn fater difrifol iawn.  'Roedd hefyd yn fygythiad wedi'i anelu at aelod o'r cyhoedd oedd yn ymgymryd â'i ddyletswydd fel swyddog y llys ar y pryd.  Credai fod dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod yn doriad a oedd yn gwarantu ystyried gwaharddiad.  Ystyriai hefyd, fel ffactor sy'n gwaethygu'r sefyllfa, er nad yw'r Cynghorydd erioed wedi gwadu defnyddio'r geiriau honedig, nid yw ar unrhyw bryd wedi dangos unrhyw edifeirwch na chydnabyddiaeth fod ei ymddygiad yn annerbyniol mewn unrhyw fodd.

Cyhoeddodd y Cadeirydd:-

(1) Y gall y Cynghorydd Christopher O'Neal apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau i dribiwnlys apeliadau a dynnir o Banel Dyfarnu Cymru.  Bydd rhaid cyflwyno apêl drwy anfon rhybudd ysgrifenedig at Lywydd y Panel Dyfarnu o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd o benderfyniad.  Bydd rhaid i'r rhybudd apêl nodi'r rhesymau dros apelio a hefyd p'un a yw'r aelod yn cydsynio i'r apêl gael ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

(2) Y cyhoeddir adroddiad ar ddeilliant yr ymchwiliad yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

(3) Yr hysbysir y Cynghorydd Christopher O'Neal, yr achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn briodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 5.10pm.

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 29.07.14

**Presennol:-**

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne, Miss Margaret Jones, Mr Sam Soysa a Dr Einir Young.

**Aelod Pwyllgor Cymuned:-** Y Cynghorydd David Clay.

**Hefyd yn bresennol:**

Ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Julie Ann Quinn (Swyddog Ymchwilio) Swyddogion Cyngor Gwynedd – Iwan Evans (Dirprwy Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Michael Sol Owen ac Eryl Jones-Williams (aelodau etholedig).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CWYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD NANCY CLARKE, CYNGOR TREF TYWYN**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r gwrandawiad a gofynnodd i bawb oedd yn bresennol gyflwyno'u hunain.

Yna, esboniodd y Cadeirydd natur / fformat y gwrandawiad.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â thoriad honedig o God Ymddygiad Aelodau Cyngor Tref Tywyn gan y Cynghorydd Nancy Clarke, a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor Safonau gan yr Ombwdsmon am benderfyniad.

Derbyniodd yr Ombwdsmon gwynion ar 17 Mehefin, 15 Gorffennaf a 19 Medi 2013, fod y Cynghorydd Nancy Elizabeth Clarke wedi methu â chadw at God Ymddygiad Aelodau Cyngor Tref Tywyn. Honnwyd bod y Cynghorydd Clarke wedi methu â datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu, wedi rhoi sylwadau ac wedi pleidleisio yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cyngor ar 21 Mai, 4 Gorffennaf a 10 Medi 2013 ac yng nghyfarfodydd y Cyngor ar 29 Mai, 10 Gorffennaf ac 11 Medi 2013. Honnwyd y dylai'r Cynghorydd Clarke fod wedi datgan diddordeb a gadael yr ystafell pan drafodwyd eitemau a oedd yn ymwneud â Siambr Fasnach a Thwristiaeth Tywyn a'r Fro ("y SFaTh"), oherwydd hanes diweddar chwerw a'i hanghydfod gyda'r SFaTh ar hyn o bryd. Honnir yn ogystal i'r Cynghorydd Clarke wneud sylwadau di-sail am y SFaTh mewn ymgais i'w atal rhag derbyn cymorth ariannol gan y Cyngor.

Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio a oedd y Cynghorydd Clarke wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o ddarpariaethau isod y Cod Ymddygiad:

*"6.- rhaid i [aelod] -*

*(1) (a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy’n dwyn anfri ar [ei] swydd.”*

*7. rhaid i [aelod] -*
*(1) (a) yn ei gapasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio ei safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall, neu greu neu osgoi anfantais iddo ef ei hun neu i unrhyw berson arall*

*8a. rhaid i [aelod] –*
*(1)(a) wrth gyfrannu mewn cyfarfodydd neu wneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo’r Awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau’r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd.*

*11(1) Pan fydd gan aelod fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo'r Awdurdod ag ef ac y bydd yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddo ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i’r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau’r ystyriaeth, neu pan ddaw’r buddiant i’r amlwg.*

*10(2)(c)(i) Rhaid [i aelod] ystyried bod ganddo fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo’r Awdurdod ag ef pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio ar lesiant neu sefyllfa ariannol unrhyw berson y mae ganddo gysylltiad personol agos ag ef.*

*14(1) (a) rhaid i aelod, os bydd ganddo fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo'r Awdurdod ag ef, oni bai ei fod wedi derbyn gollyngiad gan bwyllgor Safonau’r Awdurdod -*

*(a) ymadael â’r ystafell, y siambr neu’r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal,*

*(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;”*

Ar ddechrau’r gwrandawiad, gofynnodd y Cynghorydd Clarke am ganiatâd i gyflwyno trawsgrifiad o ddyfarniad ysgrifenedig y Dirprwy Farnwr Rhanbarth Parsons yn Llys Sirol Aberystwyth ar 26 Mehefin 2014 yn gwrthod yr honiad yn erbyn y Cynghorydd Nancy Elizabeth Clarke a gyflwynwyd gan yr Achwynydd. Penderfynwyd, ar ôl derbyn cyngor y Dirprwy Swyddog Monitro na ddylid ond caniatáu dogfennau wedi’u cyflwyno’n hwyr mewn amgylchiadau eithriadol ac nad oedd y ddogfen o berthnasedd uniongyrchol i’r materion a oedd ger bron y Pwyllgor ac felly na ddylid derbyn y ddogfen.

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith, adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon a chyflwyniadau llafar gan Julie Ann Quinn, Swyddog Ymchwil, y Cynghorydd Nancy Elizabeth Clarke a Mark Kendell yn ogystal â chyflwyniadau ysgrifenedig y Cynghorydd Clarke, Alex Lovett a Victoria Knapp.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried ei benderfyniad.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu fod y Cynghorydd Nancy Clarke wedi methu â chydymffurfio â’r Côd Ymarfer fel a ganlyn:-

(1) Canfu’r Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke wedi torri paragraff 14(1)(a) (e) y Cod Ymddygiad.

Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Canfu'r Pwyllgor fod yr amgylchiadau lle y daeth aelodaeth ffurfiol y Cynghorydd Clarke o'r SFaTh i ben yn ail hanner 2012 wedi arwain at anghydfod chwerw a oedd yn parhau rhwng Cadeirydd y SFaTh, y Cynghorydd Michael Stevens a'r Cynghorydd Clarke. Roedd yr anghydfod yn cynnwys gohebiaeth rhwng cyfreithwyr ynghylch adfer dogfennau'r SFaTh gan y Cynghorydd Clarke. Cadarnhawyd gan dystiolaeth gan y Cynghorydd Clarke a Mr Mark Kendall fod yr anghydfod yn parhau a'i fod yn bodoli bryd hynny. Roedd yr anghydfod yn cynnwys ymgais gan y Cynghorydd Michael Stevens yr ymddengys ar ran y SFaTh i adfer costau cyfreithiol o £1824.00 gan y Cynghorydd Clarke. Roedd hyn yn destun ymgyfreithiad yn y Llys Sirol. Roedd y materion hyn yn mynd rhagddynt yn ystod y cyfnod rhwng 21 Mai a 11 Medi 2013 ac yn parhau wedi hynny. Roedd y Pwyllgor yn fodlon fod y materion hyn yn ymwneud â'r SFaTh.

Penderfynodd y Pwyllgor, gan ystyried Arweiniad yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad, fod amgylchiadau perthynas y Cynghorydd Clarke gyda'r SFaTh, yr hanes chwerw a'r anghydfod a oedd yn parhau rhyngddynt yn cyfrif fel cysylltiad personol agos er dibenion paragraff 10(2) y Cod Ymddygiad Aelodau a bod natur y cysylltiad hwn yn golygu fod yna ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu er dibenion paragraff 12(1).

Yn ogystal, canfu'r Pwyllgor, ac ni wadwyd hyn, fod y Cynghorydd Clarke wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cyngor Tref ar 21 Mai, 4 Gorffennaf a 10 Medi a chyfarfodydd y Cyngor ar 29 Mai, 10 Gorffennaf a 11 Medi lle y trafodwyd materion yn ymwneud â'r SFaTh ac y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch. Nid oedd y Cynghorydd Clarke wedi datgan bodolaeth unrhyw fuddiant yn unrhyw un o'r cyfarfodydd hyn, a methodd â gadael y cyfarfodydd hynny, gan dorri'r Cod Ymddygiad Aelodau.

(2) Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke wedi torri paragraff 7(a) a 14(1)(c) y Cod Ymddygiad.

Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke, oedd â buddiant a oedd yn rhagfarnu yn y mater ac nad oedd wedi datgan y buddiant hwnnw, wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd Pwyllgor a chyfarfodydd o'r Cyngor, ac yn arbennig y cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2013 lle y dadleuodd yn erbyn cais gan y SFaTh am £3000 o gymorth ariannol a phleidleisiodd yn erbyn cynnig i roi £2000 o gymorth ariannol iddynt er ei bod hefyd wedi pleidleisio o blaid cynnig i roi £1000 o gefnogaeth ariannol.

Gan ystyried bodolaeth y buddiant a oedd yn rhagfarnu a chefndir y chwerwedd a'r anghydfod rhwng y SFaTh a'r Cynghorydd Clarke, roedd y Pwyllgor yn ystyried fod y ffaith ei bod wedi cymryd rhan ac wedi cyfrannu yn y cyfarfodydd hyn yn amhriodol a chyfystyr ag ymgais i ddylanwadu ar benderfyniad ar y busnes a rhoi anfantais i'r SFaTh.

(3) Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke wedi torri paragraff 8(a) y Cod Ymddygiad Aelodau.

Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke wedi paratoi nodyn manwl o'i chyfraniad i drafodaeth y Cyngor ar gais y SFaTh am gyfraniad o £3000. Trafodwyd y mater yn y

Pwyllgor Cyllid a oedd wedi argymell cyfraniad o £1000. Er ei fod o'r farn nad oedd i Gynghorydd baratoi nodyn o'r hyn yr oedd yn dymuno ei ddweud mewn Pwyllgor yn ei hanfod yn beth amhriodol, canfu'r Pwyllgor fod tystiolaeth arall yn bodoli i ddangos fod y Cynghorydd Clarke wedi mynychu'r cyfarfod gyda meddwl caeedig ac nad oedd yn barod i ystyried dadleuon eraill na chynigion eraill. Yn benodol, canfu'r Pwyllgor yn ystod y cyfweliad gyda'r Swyddog Ymchwilio, fod y Cynghorydd Clarke wedi datgan ei bod yn fwriadol wedi dal ei chyfraniad yn ôl hyd ddiwedd y drafodaeth pan ddarllenodd datganiad a oedd wedi ei baratoi ymlaen llaw gyda'r bwriad o wthio am bleidlais gan nodi'n benodol "*and I didn't want to be picked up on anything else".* Gan ystyried yr amgylchiadau oedd ymwneud â'r cynnig hwn, natur y buddiant a'r modd y bu i'r Cynghorydd Clarke gyfrannu yng nghyfarfod y Cyngor, casglodd y Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke wedi mabwysiadu safiad penodol ynghylch y cais cyn y cyfarfod ac nad oedd yn barod i ystyried awgrymiadau eraill er gwaethaf rhinwedd unrhyw gynnig a wnaed.

(4) Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke wedi torri paragraff 6(1) (a) y Cod Ymddygiad Aelodau.

Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:-

Canfu'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Clarke wedi cymryd rhan mewn sawl cyfarfod lle'r oedd ganddi fuddiant a oedd yn rhagfarnu a'i bod wedi gweithredu fel aelod i ddylanwadu ar gais ariannol gan y SFaTh ac wedi torri'r Cod Ymddygiad Aelodau. Ystyriodd y Pwyllgor nad oedd ei hymddygiad yn cyrraedd disgwyliadau'r safon ymddygiad i aelodau ac y gellid yn rhesymol ystyried ei bod wedi dwyn anfri ar swydd aelod o'r Cyngor.

Yna, ymneilltuodd y Pwyllgor i ystyried pa gamau i'w cymryd.

Ar ôl dod i benderfyniad, fe wnaeth y Pwyllgor ailymgynnull a chyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi penderfynu y dylid gwahardd y Cynghorydd Clarke rhag bod yn aelod o Gyngor Tref Tywyn am gyfnod o dri mis.

Roedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn.

Amrediad a natur torri'r Cod dros gyfnod o nifer o fisoedd. Y ffaith fod y Cynghorydd Clarke wedi methu â datgan a gweithredu'n briodol ar fuddiant a oedd yn rhagfarnu, ond hefyd wedi cyfrannu at ddadl ar ystyriaeth y Cyngor o geisiadau am gymorth ariannol i'r SFaTh.

Dim cydnabyddiaeth gan y Cynghorydd Clarke ei bod hi o bosib wedi torri'r Cod Ymddygiad. Parodd hyn drwy gydol y broses ymchwilio ac yn ystod gwrandawiad y Pwyllgor Safonau.

Er bod y Pwyllgor yn derbyn fod yna o bosib elfen o ansicrwydd ynghylch y cyngor penodol yr oedd y Clerc wedi'i roi i'r Cynghorydd Clarke, roedd y Pwyllgor hefyd yn ystyried mai cyfrifoldeb yr aelod unigol oedd hi yn y pendraw i wneud ei benderfyniadau ei hun ar faterion ymddygiad. Roedd yna hefyd achosion lle y dylai'r Cynghorydd Clarke fod wedi ystyried neu ailystyried ei sefyllfa, gan gynnwys y ffaith ei bod wedi cael ei henwi'n benodol fel dyledwr yng nghyfrifon y SFaTh a'i bod wedi darllen hyn a'r ohebiaeth gan yr Ombwdsmon yn ystod y cyfnod perthnasol yn rhoi gwybod iddi am y cwynion penodol ac am y bwriad i ymchwilio.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ffaith fod y Cynghorydd Clarke yn aelod eithaf dibrofiad.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid trefnu i'r Cynghorydd Clarke dderbyn hyfforddiant un i un ar y Cod Ymddygiad i Aelodau.

Cyhoeddodd y Cadeirydd:-

(1) Y gall y Cynghorydd Nancy Clarke apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru. Byddai rhaid cyflwyno apêl drwy anfon rhybudd ysgrifenedig at Lywydd y Panel Dyfarnu o fewn 21 diwrnod i dderbyn y rhybudd o benderfyniad. Byddai rhaid i'r rhybudd apêl nodi'r rhesymau dros apelio a hefyd p'un a oedd yr aelod yn cydsynio i'r apêl gael ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

(2) Cyhoeddwyd adroddiad ar ddeilliant yr ymchwiliad yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

(3) Yr hysbyswyd y Cynghorydd Nancy Clarke, yr achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn briodol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 3.05pm.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **29 Medi 2014** |
| **TEITL :** | **Cais am oddefeb gan y Cynghorydd Mike Stevens** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Mae’r Cynghorydd Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn, wedi cyflwyno cais am oddefeb. Atodir copi o e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd ynghyd a’i ffurflen gais.

2. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw’r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o’r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Mae’r sefyllfaoedd yma wedi eu rhestri yn y nodiadau amgaeedig.

3. Mae canllawiau’r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi’r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau:

*“Bydd angen i’r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy’n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau’r awdurdod sy’n weddol gynrychioladol.”*

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd Mike Stevens am oddefeb.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | 29 Medi 2014 |
| **TEITL** | RHAGLEN WAITH |
| **PWRPAS** | Adrodd ar y Rhaglen Waith |
| **ARGYMHELLION** | Derbyn diweddariad ar y Rhaglen Waith |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans –Pennaeth Gwasanethau Cyfreithiol |

1. Mabwysiadwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor atodedig ym Mis Ebrill 2014.

2. Bwriad yr adroddiad yw adrodd ar y rhaglen waith ac ar unrhyw addasiadau sydd angen ystyriaeth y Pwyllgor.

**Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau**

**30 Mehefin, 2014**

- **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**
- **Trefn cynnal gwrandawiadau**
- **Llyfr achosion yr Ombwdsmon**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**
- **Gwe ddarlledu (neu gyfarfod Medi)**

**29 Medi, 2014**

- **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
- **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Cyfarfod cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thrafod y posibilrwydd o gynnal un cyfarfod yn yr Hydref gyda'r cynghorau cymuned**
- **Hyfforddiant**

**26 Ionawr, 2015**

- **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
- **Cofrestr Buddiannau Aelodau Etholedig**
- **Trefn Datrys Anghydfod Lleol**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**
- **Ethol aelodau newydd**

**20 Ebrill, 2015**

- **Cyfarfod Prif Weithredwr a chynrychiolwyr o Grŵp Rheoli'r Cyngor**
- **Protocol Cyfryngau Cymdeithasol**
- **Presenoldeb aelodau mewn pwyllgorau a hyfforddiant**
- **Honiadau yn erbyn aelodau**
- **Rhaglen waith y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **29 Medi 2014** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

**2. Cwynion**

**2.1 Achos 201300346**

Dyddiad derbyn: 23/04/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ffilmio a recordio sgwrs yn gyfrinachol a'i roi ar ei dudalen Facebook.

**Penderfyniad**

Aelod wedi ei atal am 2 fis gan y Pwyllgor Safonau.

**2.2 Achos 201301307**

Dyddiad derbyn: 06/06/13

**Cwyn**

Bod cynghorydd sir wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol tuag at yr achwynydd

**Penderfyniad**

Aelod wedi ei atal am 2 fis gan y Pwyllgor Safonau.

**2.3 Achos 4414/201301916**

Dyddiad derbyn: (wedi codi yn ystod ymchwiliad i 2.1 uchod)

**Cwyn**

Ombwdsmon wedi penderfynu ymchwilio ar sail materion a ddaeth ar eu traws wrth ymchwilio i gŵyn arall yn erbyn y cynghorydd (para 2.1 uchod):

- Dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd neu ar yr awdurdod
- Gwrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd a cham ddefnydd o'i rôl fel cynghorydd
- Mynychu cyfarfod yn groes i gyngor y Swyddog Monitro lle gallai bod sefyllfa o wrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd
- Ymddygiad tuag at aelod o'r cyhoedd yn groes i'r Cod Ymddygiad
- Methiant i ddiweddaru ffurflen cofrestru buddiannau

**Penderfyniad**

Ombwdsmon wedi dirwyn yr ymchwiliad i ben. Nid oedd y dystiolaeth yn ddigon cadarn i alluogi'r Ombwdsmon i ddod i farn bendant os y bu achosion o dorri'r cod ymddygiad.

**2.4 Achos 201301629**

Dyddiad derbyn: 17/06/13

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant mewn eitem oedd gerbron cyfarfod o'r cyngor.

**Penderfyniad**

Aelod wedi eu hatal gan y Pwyllgor Safonau am gyfnod o dri mis.

**2.5 Achos 6141/201400682**

Dyddiad derbyn: 29/04/14

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi cam ddefnyddio ei safle er mwyn cael mantais ariannol.

**Penderfyniad**

Ombwdsmon am ymchwilio i rai agweddau o’r gwyn

**2.6 Achos 6180/201400801**

Dyddiad derbyn: 15/05/14

**Cwyn**

Cwyn, gan aelod o’r cyhoedd, bod cynghorydd sir yn gwadu ei bod wedi defnyddio geiriau penodol mewn sgwrs.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad – yr aelod ddim yn gweithredu fel aelod ar y pryd.
.

**2.7 Achos 6397/201401427**

Dyddiad derbyn: 02/06/14

**Cwyn**

Cwyn, gan aelod o’r cyhoedd, bod cynghorydd tref wedi ymddwyn mewn ffordd anghwrtais.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad - nid oedd y sylw honedig yn un sarhaus ym marn yr Ombwdsmon. Ni fyddai’n torri cod hyd yn oed pe profir ei fod wedi gwneud y sylwadau.

**2.8 Achos 201402810**

Dyddiad derbyn: 28/07/14

**Cwyn**

Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth.

**Penderfyniad**

Cyfeirio at y Swyddog Monitro i ymchwilio.

**2.9 Achos 201403279**

Dyddiad derbyn: 14/08/14

**Cwyn**

Aelod Cyngor Gwynedd wedi torri nifer o egwyddorion y cod wrth ymwneud â mater lleol.

**Penderfyniad**

Ystyried os am ymchwilio.

**2.10 Achos 5847/201402641 & 201402642 & 201403463**

Dyddiad derbyn: 18/07/14

**Cwyn**

Cwyn, gan aelod o gyngor tref bod tri o'i gyd-aelodau wedi methu datgan buddiant.

**Penderfyniad**

Ymchwiliad.

**2.11 Achos 6769/201402621**

Dyddiad derbyn: 18/07/14

**Cwyn**

Cwyn, gan aelod o gyngor tref bod cyd-aelod wedi ymddwyn yn amhriodol.

**Penderfyniad**

Ystyried os am ymchwilio.

| |
|---|
| **2.12 Achos 6141/201400940**<br><br>Dyddiad derbyn: 27/05/14<br><br>**Cwyn**<br><br>Cwyn yn erbyn ymddygiad cynghorydd tref<br><br>**Penderfyniad**<br><br>Dim ymchwiliad – achwynydd heb gyflwyno digon o wybodaeth am y gŵyn. |

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **29 Medi 2014** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2013/14** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Nodi er Gwybodaeth** |

**<u>Cefndir</u>**

1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol am y flwyddyn 2013 – 2014.

2. Mae copi o'r rhannau hynny o'r adroddiad sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad wedi ei gynnwys fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombudsman-wales.org.uk)

**<u>Argymhelliad</u>**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

# 1. Cyflwyniad gan yr Ombwdsmon Dros Dro



Margaret Griffiths
Ombwdsmon Dros Dro
*(ers Rhagfyr 2013)*

Dyma wythfed Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ers i'r swyddfa gael ei chreu yn Ebrill 2006. Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn am y flwyddyn 2013/14 fel Ombwdsmon Dros Dro, ar ôl ymgymryd â'r swydd ym mis Rhagfyr 2013.

Cefais fy mhenodi fel Ombwdsmon Dros Dro yn dilyn ymadawiad Peter Tyndall ddiwedd Tachwedd 2013, pan adawodd i ymgymryd â swydd newydd fel Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon. Byddaf yn parhau fel Ombwdsmon Dros Dro nes bydd Ombwdsmon newydd wedi'i benodi.




Peter Tyndall
Ombwdsmon
*(tan fis Tachwedd 2013)*

Penodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan y Goron yn dilyn enwebiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Nick Bennett – Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Cymru – wedi'i enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nesaf. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae cais wedi'i wneud am gymeradwyaeth frenhinol i benodiad Mr Bennett.

## Llwyth achosion sy'n cynyddu

Mae'r cynnydd yn yr ymholiadau a'r cwynion a wneir i'r swyddfa hon wedi bod yn duedd amlwg yn yr Adroddiadau Blynyddol blaenorol; ac nid yw 2013/14 yn ddim gwahanol. Fel y mae'r siart (isod) yn ei ddangos, gwelwyd cynnydd arall y llynedd. Gan edrych yn ôl dros gyfnod o bum mlynedd mae'r swyddfa wedi gweld cynnydd o 117% yn yr holl gysylltiadau (hynny yw, ymholiadau, cwynion am gyrff cyhoeddus, a chwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol).



Mae'n deyrnged i staff y swyddfa eu bod wedi dal eu tir wrth ddelio ag achosion yn brydlon, nid yn unig yn wyneb llwyth achosion sy'n cynyddu ond hefyd yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn gyfnod ansicr iddynt yn ystod ail hanner y flwyddyn, gydag ymadawiad yr Ombwdsmon, penodi Ombwdsmon Dros Dro, ac aros am benodiad Ombwdsmon newydd, parhaol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i holl staff y swyddfa am eu croeso cynnes, am eu proffesiynoldeb, ac am yr holl gymorth a chefnogaeth a gefais ganddynt ers ymgymryd â fy rôl fel Ombwdsmon Dros Dro.

Mae'r cynnydd yn nifer y cwynion a gafwyd yn achos pryder. Cwynion am wasanaethau iechyd yw prif achos y pryder hwnnw, gyda chynnydd o 11% arall o'i gymharu â sefyllfa ar ddiwedd 2012/13, a chynnydd o 146% dros y pum mlynedd diwethaf. Gellir priodoli'r cynnydd i nifer o ffactorau: mae'n adlewyrchu'r nifer cynyddol o wahanol driniaethau ac ati sydd ar gael sy'n golygu bod mwy o siawns y gall pethau fynd o chwith; disgwyliadau uwch pobl ynghyd â'u bod yn barotach i gwyno; ac am nad yw byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'n ymateb yn briodol i gyfran o'r cwynion hynny (mae hwn yn fater sy'n cael sylw pellach isod). Fodd bynnag, ni ellir gwadu bod hyn hefyd yn dangos i ni nad yw gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu fel y dylent.

Fodd bynnag, maes arall a fu'n achos pryder eleni oedd y cynnydd mewn cwynion am wasanaethau cymdeithasol. Gan ddechrau ar lefel llawer is o ran nifer o'i gymharu â gwasanaethau iechyd, roedd cynnydd o 19% mewn cwynion am wasanaethau cymdeithasol o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2013/14. Mae hwn yn amser da i fyfyrio ar y sefyllfa hon, cyn i feysydd newydd gael eu cyflwyno i awdurdodaeth yr Ombwdsmon o ganlyniad i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r newidiadau i'r drefn gwyno statudol am wasanaethau cymdeithasol. Wrth fonitro lefel y cwynion am wasanaethau cymdeithasol bydd yn bwysig nad ydym yn tybio'n awtomatig y bydd unrhyw gynnydd yn ganlyniad i'r newidiadau awdurdodaethol hyn yn unig.

## Gwneud gwahaniaeth

Mae ystadegau yn eu hanfod yn bethau digon amhersonol. Mae'n holl bwysig nad ydym yn colli golwg ar y profiadau personol sydd wrth eu gwraidd. Mae pob cwyn yn golygu bod unigolyn yn rhywle'n teimlo ei fod wedi cael cam gan wasanaeth cyhoeddus. Mae'r crynodebau o'n hadroddiadau budd cyhoeddus (gweler Atodiad A) yn rhoi peth syniad o hyn.

Yn ogystal â cheisio cywiro pethau i'r unigolyn rydym hefyd yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth drwy annog darparwyr i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn well drwy rannu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil ein hymchwiliadau. Mae ein hadroddiadau budd cyhoeddus a Choflyfr yr Ombwdsmon yn gyfryngau pwysig i gyflawni'r nod hwn, gyda'r olaf yn cael ei groesawu gan gyrff o fewn yr awdurdodaeth.

Gall gwaith achosion y swyddfa hon fod yn llinyn mesur da. Gall ddangos i ni ble mae'r pwysau i'w deimlo o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, fel yr amlygir gan y cwynion am wasanaethau iechyd, er enghraifft. Mae gennym drosolwg unigryw o wasanaethau cyhoeddus a gyflenwir sy'n seiliedig ar farn y cyhoedd a oedd yn anfodlon â'r gwasanaeth a gawsant. Er ein bod yn ymateb i ymgynghoriadau'r

Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru pan fydd hynny'n briodol, mae llunwyr polisïau cyhoeddus yn cael eu hannog i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r swyddfa hon fel y gallant ystyried unrhyw ddangosyddion neu wersi sydd wedi deillio o'n gwaith achosion yn gynnar yn eu prosesau.

## Y cyd-destun trafod cwynion yng Nghymru

Dros gyfnod o flynyddoedd bellach mae OGCC wedi hyrwyddo'r cysyniad sy'n datgan y dylai pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu dull cyffredin i ddelio â chwynion. Cafodd gweithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG a'r Polisi Enghreifftiol a Chanllawiau ar Bryderon a Chwynion eu datblygu ochr yn ochr, ac mae'r ddau'n defnyddio proses dau gam (un cam anffurfiol ac un cam ymchwiliad ffurfiol), gydag achwynwyr, os ydynt yn parhau'n anhapus, wedyn yn gallu cwyno i'r Ombwdsmon. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd darn olaf jig-so'r cyd-destun dull cyffredin yn cael ei osod yn ei le. Yn benodol, bydd hyn yn golygu y bydd modd ymdrin â chwynion sy'n cynnwys mwy nag un darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol, gydag achwynwyr yn cael un ymateb cynhwysfawr gan y darparwr gwasanaeth sydd wedi arwain y gwaith o gydlynu ymchwiliad amlweddog i'r gŵyn.

Mae'r modd yr ymdrinnir â chwynion, yn enwedig cwynion am wasanaethau iechyd, wedi bod yn destun amlwg mewn trafodaethau yn ystod 2013/14. Barn bendant y swyddfa hon yw nad oes problem gyda'r broses ei hun. Yn hytrach, mae'r broblem yn bodoli gyda'r diwylliant yn y cyrff iechyd a'u hagwedd tuag at ddelio â chwynion. Nid oes gan rai byrddau iechyd ddigon o adnoddau ac yn aml ni cheir cefnogaeth ddigonol gan uwch reolwyr a byrddau i'r rhai sy'n rheoli cwynion. Mae hyn yn golygu nad yw staff sy'n ymdrin â chwynion yn gallu cael ymatebion priodol a phrydlon bob amser gan y rhai sy'n destun y gŵyn yr ymchwilir iddi. Mae'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan y swyddfa hon wedi datgelu enghreifftiau dro ar ôl tro ble na fu ymchwiliad digon trylwyr i gwynion; er enghraifft, ni chafwyd arbenigedd clinigol annibynnol pan oedd achosion yn ddigon difrifol i fynnu hynny. Mae angen i aelodau byrddau iechyd hefyd herio'r rheolwyr yn briodol a dwyn uwch reolwyr i gyfrif am beidio ag ymateb yn brydlon a phriodol i unrhyw fethiannau a amlygwyd.

Yn olaf, mae'r swyddogaeth goruchwylio cwynion yn brin ar draws darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod 2013/14, nid oedd yn bosibl casglu ystadegau cymaradwy ar niferoedd, natur na chanlyniad cwynion a wnaethpwyd i gynghorau sir/bwrdeistref sirol na byrddau iechyd. Mae Gweithio i Wella a'r Polisi Enghreifftiol ar Bryderon a Chwynion yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hyn. Fodd bynnag, nid yw data o'r fath yn cael ei gasglu na'i ddadansoddi ar lefel Cymru gyfan ar hyn o hyd. Mae hon yn ffynhonnell werthfawr i ddeall yn well i ba raddau mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n effeithiol gan wahanol gyrff, gan gynnig cyfleoedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac yn ddeall o ddifrif sut y mae'r cyrff hyn yn ymdrin â chwynion. Mae hyn yn rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'i rôl craffu, fyfyrio arno.

## Ystyriaethau'r dyfodol

Tua diwedd ei gyfnod yn y swydd, dywedodd Peter Tyndall, gyda deng mlynedd ers sefydlu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn nesáu, y byddai'n adeg briodol i edrych ar y ddeddfwriaeth yr oedd yr Ombwdsmon yn gweithredu oddi mewn iddi. Cyfeiriodd at nifer o feysydd a oedd yn haeddu sylw – er enghraifft, pwerau 'ar ein menter ein hunain', sydd bellach yn gyffredin yng nghylchoedd gwaith ombwdsmyn yn Ewrop a rhannau eraill o'r byd. Rwyf yn cytuno â'i safbwynt, a gobeithiaf y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n rhoi ystyriaeth bellach i'r awgrym y dylai'r Ddeddf gael ei diwygio.

Bydd angen rhoi ystyriaeth hefyd i weithredu Cyfarwyddeb Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau Defnyddwyr (ADR) yr Undeb Ewropeaidd (UE) (a weithredir yng Ngorffennaf 2015). Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod gofyniad ar aelod wladwriaethau'r UE i gynnig mynediad effeithiol at wasanaethau ADR i ddatrys anghydfodau contract rhwng defnyddwyr a busnesau sy'n ymwneud â gwerthu nwyddau a gwasanaethau. Mae Cymdeithas yr Ombwdsmyn wedi rhoi sylw manwl i'r mater hwn. Er bod y cyfrifoldeb am gyflawni gofynion y Gyfarwyddeb yng ngofal Llywodraeth y DU, mae'n rhywbeth y dylem ni yng Nghymru roi sylw iddo, gan ystyried y posibilrwydd y gallai rhagor o bwerau datganoledig ddod i'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Peter Tyndall

Yn olaf, hoffwn gloi'r cyflwyniad hwn drwy dalu teyrnged i fy rhagflaenydd, Peter Tyndall. Ymgymerodd â'i rôl gydag ymroddiad ac uniondeb, a sicrhaodd ei annibyniaeth fel Ombwdsmon. Datblygodd swyddfa effeithlon, a oedd yn allweddol wrth wynebu'r baich achosion cynyddol. Hefyd, cyflwynodd a hwylusodd nifer o ddatblygiadau yng nghyd-destun delio â chwynion. Mae'r rhain wedi ennill cydnabyddiaeth yng nghymuned yr Ombwdsmyn rhyngwladol, ond yn bwysicach na hynny maent wedi gwneud y broses o gwyno i, ac am, wasanaethau cyhoeddus yn haws i bobl sy'n byw yng Nghymru.

S. M. Griffiths.

Margaret Griffiths
Ombwdsmon Dros Dro

# 4. Cwynion Cod Ymddygiad

### Y prif ffigurau

- Cawsom 228 o gwynion newydd, **22% yn llai** na 2012/13.
- Cafodd 6 o adroddiad ar ymchwiliadau eu cyfeirio un ai at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, **70% yn llai** na 2012/13.
- Caeasom 229 o achosion, **38% yn llai** na 2012/13.
- Nid oedd gennym ddim ymchwiliadau a oedd yn agored ers mwy na 12 mis ar 31 Mawrth 2014.

## Y cwynion a gafwyd

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r cwynion cod ymddygiad a gafwyd yn ôl math o awdurdod.


| | **2013/14** | **2012/13** |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned | 115 | 140 |
| Cyngor Sir/Bwrdeistref Sirol | 111 | 150 |
| Awdurdod Tân | 2 | 0 |
| Parc Cenedlaethol | 0 | 0 |
| Awdurdod Heddlu | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **228** | **291** |

Mae'n braf iawn nodi bod nifer y cwynion cod ymddygiad wedi parhau i ostwng. Mae'r trefniadau datrysiadau lleol newydd a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn amlwg yn cael yr effaith a fwriadwyd gyda gostyngiad o 22% yn nifer y cwynion a wnaethpwyd i'r swyddfa hon o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r trefniadau newydd hyn yn golygu bod cwynion 'lefel isel' a wneir gan un aelod yn erbyn un arall, megis honiadau o beidio dangos parch ac ystyriaeth i eraill o dan baragraff 4(b) y cod, yn awr yn cael eu cyfeirio at swyddogion monitro'r awdurdodau i ddelio â hwy'n lleol.

Rydym hefyd wedi parhau â'r dull a fabwysiadwyd y llynedd o ysgrifennu at y Swyddog Monitro lleol pan nad yw'r Ombwdsmon yn bwriadu ymchwilio i gŵyn neu, os yw wedi dechrau ymchwiliad, yn penderfynu cau'r achos. Bydd hyn yn digwydd pan bernir hyd yn oed pe byddai'r Pwyllgor Safonau yn barnu bod y Cod wedi'i dorri, ni fyddai'n debygol o osod sancsiynau. Bydd y Swyddog Monitro wedyn yn ystyried y mater. Os bydd ei safbwynt yn wahanol o ran y tebygrwydd y byddai'r Pwyllgor Safonau yn gosod sancsiynau ac yn penderfynu bod y Cod wedi'i dorri, yna bydd yr ymchwiliad yn cael ei drosglwyddo iddynt hwy i ystyried y mater yn lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 16 o gwynion o'r fath eu trosglwyddo i swyddogion monitro, gyda un ohonynt yn cael ei galw i mewn ar gyfer ymchwiliad lleol.

## Natur cwynion Cod Ymddygiad

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd mwyafrif y cwynion a gafwyd yn ystod 2013/14 yn ymwneud â materion 'cydraddoldeb a pharch'. Yn 2013/14 dyma oedd sail 36% o'r cwynion cod ymddygiad a gafwyd o'i gymharu â 35% yn 2012/13. Roedd y meysydd eraill mwyaf niferus yn ymwneud â datgelu a chofrestru budd (21%), a gonestrwydd (20%).




## Crynodeb o ganlyniadau cwynion Cod Ymddygiad

O'r achosion Cod Ymddygiad a ystyriwyd yn 2013/14, caewyd y mwyafrif o dan y categori a ddangosir isod fel 'Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol'. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau megis:

- nid oedd tystiolaeth olwg gyntaf bod y Cod wedi'i dorri
- nid oedd y toriad honedig yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad (ac yn annhebygol o arwain at sancsiwn)
- roedd y digwyddiad a oedd wrth wraidd y gŵyn wedi digwydd cyn i'r aelod gael ei ethol (cyn iddo gael ei rwymo gan y Cod).

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 176 | 283 |
| Tynnwyd y gŵyn yn ôl | 12 | 12 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 8 | 18 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim tystiolaeth o doriad | 10 | 23 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Dim angen gweithredu | 17 | 15 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Cyfeirio at Bwyllgor Safonau | 5 | 15 |
| Cwblhawyd yr ymchwiliad: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 1 | 5 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau – cwynion Cod Ymddygiad** | **229** | **371** |

(Ceir dadansoddiad manwl o'r canlyniadau i gwynion Cod Ymarfer a ystyriwyd fesul awdurdod lleol yn ystod 2013/14 yn Atodiad C.)


Nid yn unig y mae nifer y cwynion cod ymarfer i'r swyddfa wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n werth nodi hefyd y gostyngiad yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd un ai at bwyllgor safonau awdurdod neu at Banel Dyfarnu Cymru, ble bu gostyngiad sylweddol o 20 yn 2012/13 i 6 yn 2013/14. Gellir priodoli hyn yn rhannol i effeithiau dyfarniad yr Uchel Lys ar achos Calver yn 2012. Mae'r dyfarniad ar yr achos hwn, a oedd yn ymwneud â rhyddid mynegiant aelod, yn cael amddiffyniad uwch o dan y ddeddfwriaeth Hawliau Dynol pan mae sylwadau a wneir yn rhai gwleidyddol eu natur, wedi cael effaith ar y modd y gweithredir paragraff 4b y Cod Ymddygiad sy'n ymwneud â thrin eraill â pharch ac ystyriaeth. Wrth ystyried y dyfarniad bod yn rhaid i wleidyddion fod â chroen mwy trwchus, mae newidiadau wedi bod yn yr hyn y mae'r Ombwdsmon nawr yn ei gyfeirio at Bwyllgor neu'r Panel.

## Cyfnodau penderfynu


Rhoddir y cyfnodau penderfynu ar gyfer cwynion cod ymddygiad isod. Mae'r targedau amser ar gyfer cwynion cod ymddygiad yn debyg i'r rhai ar gyfer cwynion am gyrff cyhoeddus, hynny yw:

- o leiaf 90% o'r achwynwyr i gael eu hysbysu o fewn 4 wythnos a fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i'w cwyn (o'r dyddiau y cafwyd digon o wybodaeth)
- cwblhau pob achos o fewn 12 mis o'r adeg pan wneir penderfyniad i ymchwilio i gŵyn (hynny yw, dechrau ymchwilio i gŵyn).

### Cyfnodau penderfynu ar gyfer hysbysu achwynwyr y byddwn yn ymchwilio i'w cwyn



### Cyfnodau penderfynu ar gyfer cwblhau ymchwiliadau cod ymddygiad




O ran y targed cyntaf, llwyddwyd i gyflawni hyn 81% o'r amser, ac mae braidd yn siomedig nad oeddem wedi llwyddo i gyrraedd y targed 90% yn achos y cwynion cod ymddygiad ac nad oeddem wedi llwyddo i gynnal perfformiad 2012/13. Mae hyn felly'n rhywbeth y byddwn yn rhoi sylw iddo yn y flwyddyn sy'n dod.

O ran yr ail darged, ac ar nodyn llawer mwy positif, rydym yn arbennig o falch ein bod wedi cyflawni cyfradd llwyddiant o 100% i gwblhau ymchwiliadau cod ymddygiad o fewn 12 mis. Wrth edrych yn ôl ar Adroddiadau Blynyddol blaenorol gellir gweld bod ein perfformiad ar achosion Cod Ymddygiad wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn arbennig o galonogol yn enwedig wrth gymharu'r sefyllfa dair blynedd yn ôl pan oedd 63% yn unig o ymchwiliadau cod ymddygiad yn cael eu cwblhau o fewn llai na 12 mis. O weld bod 85% o ymchwiliadau wedi'u cwblhau mewn llai na 9 mis yn y flwyddyn ddiwethaf mae hyn yn fwy boddhaus byth.

## Gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru – Terfyn Indemniad

Mae OGCC wedi datgan pryderon yn y gorffennol am yr angen rhoi sylw i lefelau'r indemniad sydd ar gael i aelodau sydd wedi'u cyhuddo o dorri'r cod ymddygiad. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried y defnydd gorau o arian cyhoeddus, yn enwedig pan fo pob sefydliad sy'n cael arian cyhoeddus yn gweithio o fewn cyfyngiadau ariannol anodd iawn. Drwy gael indemniad diderfyn, mae'n bosibl y gall achosion sydd gerbron tribiwnlysoedd bara am fisoedd, neu fwy hyd yn oed, gyda symiau mawr o arian yn cael eu gwario ar gyflogi cyfreithwyr. Yn dilyn trafodaethau â CLlLC cytunwyd ar drothwy arfaethedig o £20,000. Mae awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno trothwy o'r fath yn ystod y flwyddyn neu fwy diwethaf; fodd bynnag, mae'n siomedig bod dau gyngor sydd â threfniadau yswiriant ar waith ar gyfer indemniad wedi dweud na allant gydymffurfio gan fod cwmnïau yswiriant yn gwrthwynebu trothwy o'r fath.

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dweud yn y gorffennol y gallant ystyried rhoi sylw i'r mater hwn drwy ddeddfwriaeth os na ellir sicrhau cytundeb gwirfoddol pob cyngor. Mae'n bosibl felly y bydd angen codi'r mater hwn eto yn ystod y flwyddyn nesaf.

# Atodiad C

## Cwynion Cod Ymddygiad:

## Dadansoddiad Ystadegol o'r Canlyniadau Fesul Awdurdod Lleol

## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | | | | | | | **4** |
| Caerffili | 4 | | | 2 | | | 1 | **7** |
| Caerdydd | 5 | | 1 | | | | 1 | **7** |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | | | | | | 3 | **4** |
| Ceredigion | 2 | | | | | | | **2** |
| Conwy | 1 | | | | | | | **1** |
| Sir Ddinbych | 2 | | | | | | 2 | **4** |
| Sir y Fflint | 2 | 2 | | | | | | **4** |
| Gwynedd | 4 | | | | | | | **4** |
| Ynys Môn | 1 | | | 1 | | | | **2** |
| Sir Fynwy | 1 | 2 | | | | | | **3** |
| Casnewydd | 8 | | | | | | | **8** |
| Sir Benfro | 3 | | | 1 | 1 | | | **5** |
| Powys | 1 | | 2 | | | | | **3** |
| Rhondda Cynon Taf | 14 | | | | | | 1 | **15** |
| Abertawe | 22 | 2 | 5 | 1 | | | | **30** |
| Bro Morgannwg | | | | | | | 1 | **1** |
| Torfaen | 5 | | | 1 | | | | **6** |
| Wrecsam | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **83** | **6** | **9** | **6** | **1** | | **9** | **114** |

## CYNGHORAU CYMUNED/TREF

| Cynghorau Cymuned/Tref | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned Aberffraw | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Rhydaman | 1 | | | | | | | **1** |
| Dinas Bangor | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Bargoed | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Blaengwrach | | 1 | | 1 | | | | **2** |
| Cymuned Blaenrheidol | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Brymbo | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Cil-y-coed | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Cefn | | | 1 | 2 | | | | **3** |
| Cymuned Coety Uchaf | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Colwinston | | | | | 2 | | | **2** |
| Tref Cei Conna | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Cwmbrân | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Ffordun | | 1 | | | | | | **1** |
| Tref Glyn-nedd | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Goldcliff | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Gorseinon | | | | | 1 | | | **1** |

## CYNGHORAU CYMUNED/TREF (PARHAD)

| Cynghorau Cymuned/Tref | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned Gresffordd | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref y Gelli Gandryll | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Hirwaun a Phenderyn | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref Caergybi | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Cydweli | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Cilâ | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Trefyclawdd | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Trelales | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Langstone | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llanbadrig | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Llandrindod | 2 | | | 1 | | 1 | | **4** |
| Tref Llandudno | 3 | | | | | | | **3** |
| Gwledig Llanelli | | | | | | | 2 | **2** |
| Cymuned Llanfaelog | | | | 5 | | | | **5** |
| Cymuned Llanfynydd [Sir Gaerfyrddin] | 3 | | | | | | | **3** |
| Cymuned Llangynydd, Llanmadog a Llandimôr | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Llangwm [Sir Benfro] | 1 | | | | | | | **1** |

## CYNGHORAU CYMUNED/TREF (PARHAD)

| Cynghorau Cymuned/Tref | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymuned Llantrisant | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Llanwrtyd | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Mathri | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Trefaldwyn | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned y Mwmbwls | 26 | | | | | | | **26** |
| Cymuned Nelson | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Pencraig | 1 | | | | | | | **1** |
| Cyngor Cymuned Hen Laneirwg | 1 | | | | | | | **1** |
| Pen-bre a Phorth Tywyn | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Penmaenmawr | 1 | | | 1 | | | | **2** |
| Cymuned Pennard | 2 | | | | | | | **2** |
| Tref Porthcawl | 1 | | | | | | | **1** |
| Tref Prestatyn | 8 | | | | | | 1 | **9** |
| Tref Rogiet | 1 | | | 1 | | | | **2** |
| Cymuned St Florence | 2 | | | | | | | **2** |
| Cymuned Sili | | | | | 1 | | | **1** |
| Tref Talgarth | 1 | | | | | | | **1** |
| Cymuned Tryleg Unedig | 1 | | | | | | | **1** |
| **Cyfanswm** | **93** | **2** | **1** | **11** | **4** | **1** | **3** | **115** |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **29 Medi 2014** |
| **Teitl :** | **Gweddarlledu** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth a gwahodd sylwadau** |

**Cefndir**

1. Atodir copi o adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 9 Medi 2014. Mae'n darparu diweddariad ar y rhaglen waith i gyflwyno cyfundrefn gwe ddarlledu mewn cyfarfodydd.

**Argymhelliad**

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad ac i gyflwyno unrhyw sylwadau yr hoffai gynnig ar y pwnc.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Medi, 2014** |
| **PWNC** | **Gwe Ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau gwe-ddarlledu** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Bydd y pwyllgor yn cofio'r adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor oedd yn son am y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cyflwyno gwe-ddarlledu yng Ngwynedd.

2. Y diweddaraf yw bod y system wedi ei fewnosod a dros misoedd yr haf rydym wedi bod yn treialu mymryn ar y dechnoleg. Ddechrau Medi, bydd y swyddogion a fydd yn gweithredu'r system wedi derbyn yr hyfforddiant priodol a byddwn yn symud ymlaen yn fuan wedyn i recordio rhai cyfarfodydd heb eu darlledu.

3. Ar brynhawn 26 Tachwedd, cynhelir sesiwn hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau ar y drefn gwe-ddarlledu. Rydym yn gobeithio y bydd y sesiwn hynny yn cynnwys:-

   - Esboniad o'r gyfundrefn, sut a pha mor aml y bydd yn cael ei ddefnyddio
   - Arddangosiad o'r system i aelodau gael blas ar sut y bydd yn gweithredu yn ymarferol
   - Rhannu canllawiau ynglyn â gweithrediad y system (Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau i'r diben hwn a'r bwriad yw eu haddasu. Mae copi o ganllawiau'r Gymdeithas ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn)

4. O hynny tan y Nadolig, y bwriad fydd gwneud mwy o waith treialu ac ymarfer ar y system gyda'r trefniadau yn mynd yn fyw o ddechrau'r flwyddyn pan y mae Gwefan newydd y Cyngor yn cael ei lansio.

5. I atgoffa'r aelodau, y bwriad yw y bydd y cyfarfodydd a ganlyn yn cael ei gwe-ddarlledu maes o law:-

   - Pob cyfarfod o'r Cyngor llawn
   - Pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio (pan y mae'n eistedd yng Nghaernarfon)
   - Bydd y gweddill o'r oriau yn cael eu defnyddio ar sail asesiad o'r materion ar raglenni gwaith pwyllgorau unigol (yn cynnwys y Cabinet a Chraffu) a fydd o ddiddordeb i'r cyhoedd

6. Ceisir sylwadau'r pwyllgor

WLGA • CLILC

# Canllawiau i gynghorwyr am weddarlledu

Awst 2014

# Cyswllt

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Prif ddibenion WLGA yw hyrwyddo safonau ac enw da byd llywodraeth leol a helpu'r awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru ac mae awdurdodau'r tri gwasanaeth tân ac achub a'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.


**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

029 2046 8600
www.wlga.gov.uk



Cyhoeddwyd: Awst 2013



Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru



ISBN: 978-1-78286-014-3

Diolch i'r swyddogion, y cynghorwyr a'r arbenigwyr sydd wedi helpu i lunio'r canllawiau hyn – yn arbennig Rhwydwaith Swyddogion Cynorthwyo'r Cynghorwyr, Chyfreithwyr Llywodraeth Leol, Mel Doel (sydd wedi hyfforddi cynghorwyr ar ran WLGA yn ogystal â helpu i lunio'r cynnwys) a Kevin O'Keefe o gwmni EXCELA INTERIM MANAGEMENT AND CONSULTANCY LTD (am ein cynghori am faterion cyfreithiol).



**Mae rhagor o wybodaeth gan Sarah Titcombe WLGA.**
**sarah.titcombe@wlga.gov.uk**
**029 2046 8638**

## Rhagair



Mae'n dda gyda fi gyflwyno'r llawlyfr hwn gan WLGA am ddarlledu cyfarfodydd cynghorau lleol. Mae'n rhoi braslun defnyddiol o'r pwnc ac yn cynnig awgrymiadau pwysig ynglŷn â gwneud y gorau o ddatblygiad technolegol cyffrous ac iddo bosibiliadau lu o ran gwella'r modd mae pob cyngor lleol yn ymgysylltu â phobl ei fro.

Mae gweddarlledu prif gyfarfodydd y cynghorau'n gam pwysig ymlaen ynglŷn â gofalu bod llywodraeth leol yn broses dryloyw sydd ar gael i'r cyhoedd, ac mae'n helpu pobl eisoes i ymgysylltu â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau nhw bob dydd. Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn ymddiried yn eu cyngor lleol yn anad unrhyw ffordd arall o lywodraethu i gael y maen i'r wal ynglŷn â'r materion sy'n bwysicaf iddyn nhw. A ninnau ar fin dechrau un o'r cyfnodau anhawsaf erioed i fyd llywodraeth leol Cymru, fe fydd yn hanfodol i ddarlledu'n fyw sut rydyn ni'n dod i benderfyniadau allweddol i ofalu y bydd pobl yn parhau i ymddiried ynom ni.

Ynghyd â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae darlledu cyfarfodydd cynghorau ar y we yn prysur ennill ei blwyf ym maes llywodraeth leol. O ganlyniad, bydd cymunedau'n cael gwylio'r cyngor wrth ei waith a chymryd rhan yn y penderfynu trwy wahanol gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter. Gobeithio y bydd y cynghorau'n parhau i wneud y gorau o'r dulliau hyn i feithrin rhagor fyth o dryloywder ac annog pobl i gymryd rhan ym mhroses democratiaeth leol.

**Y Cynghorydd Peter Fox**
Arweinydd Cyngor Sir Fynwy
Llefarydd WLGA dros TGCh a Chynhwysiant Digidol

# Beth yw gweddarllediad?

Mae gweddarllediad yn fideo sy'n cael ei chyhoeddi ar y we – naill ai'n fyw neu rywbryd wedyn.  Fydd neb yn golygu'r fideo cyn ei darlledu ac mae modd i bawb a chanddo'r Rhyngrwyd ei gwylio'n fyw ac unrhyw bryd wedyn yn ystod y cyfnod y bydd ar wefan yr awdurdod.

Mae cynghorau ledled Cymru yn cyflwyno gweddarlledu bellach i ddangos eu cyfarfodydd amrywiol i'r cyhoedd.  Mae'n amlwg bod hynny o arwyddocâd i gynghorwyr am fod modd i bobl gymryd rhan ehangach ym mhroses democratiaeth ac i waith byd llywodraeth leol fod yn fwy trylwyr.  At hynny, mae'n golygu y bydd modd i bobl fwrw golwg manylach ar yr hyn mae cynghorwyr yn ei wneud ac yn ei ddweud.

# Pam mae Cymru yn gweddarlledu?

Mae cynghorau Cymru wedi ymroi i hybu democratiaeth leol a helpu pobl i gymryd rhan ynddi.  Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu cynghorau i hybu democratiaeth ac ymgysylltu ym maes llywodraeth leol trwy roi £1,125,000 yn 2013/14 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cynghorau ar y we, cyflwyno trefniadau presenoldeb o hirbell a helpu cynghorau cymuned i sefydlu gwefannau.  Er nad oes rhaid i awdurdodau lleol ddarlledu eu cyfarfodydd, mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwaith y Llywodraeth wedi eu hannog i ddarlledu rhai cyfarfodydd neu'r cyfarfodydd i gyd er tryloywder ac er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd.  Yn ôl Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol'*[1]* sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gofyn statudol i bob awdurdod lleol ddarlledu ei gyfarfodydd ar y we.

Mae fersiwn arfaethedig Côd Arferion Cymeradwy Cyhoeddusrwydd yr Awdurdodau Lleol[2] yn dweud bod 'pobl yn disgwyl y dylai llawer mwy o wybodaeth fod ar gael bellach – yn arbennig gwybodaeth am weithdrefnau penderfynu cyrff etholedig.  Dylai cynrychiolwyr gwleidyddol groesawu hynny yn gyfle i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r etholwyr. Anogir yr awdurdodau lleol i drefnu i'w cyfarfodydd fod ar gael i'r cyhoedd trwy eu darlledu nhw.'

## Cynnydd

Mae gweddarlledu'n mynd rhagddo bellach yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i ddibenion y cyfarfodydd yr ystyrir eu bod o gryn ddiddordeb i bobl – yn arbennig cyfarfodydd y cyngor cyflawn, y cabinet a'r pwyllgor cynllunio.  Mae rhai cynghorau lleol yn darlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu, hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi penodi cwmnïau masnachol i roi'r gwasanaeth, er bod rhai wedi datblygu eu dulliau eu hunain.  Er enghraifft, mae Cyngor Sir Fynwy yn defnyddio Google Plus a YouTube, mae Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio Livestream i ddarlledu'n ddwyieithog ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi llunio dull trwy Auditel a Vimeo.

---

1 http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/white-paper-reforming-local-government/?skip=1&lang=cy

2 http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/130322revisedcodelapublicitycy.pdf

Bydd nifer y rhai sy'n gwylio cyfarfodydd cynghorau ar y we yn amrywio yn ôl y math o gyfarfod ac awdurdod ond, ar y cyfan, mae nifer y rhai sy'n cyrchu gwefannau cynghorau yn awgrymu bod diddordeb pobl yn y darllediadau yn tyfu. Fel arfer, bydd mwy o bobl yn eu gwylio wedyn nac yn fyw.

## Manteision gweddarlledu

Mae gweddarlledu wedi arwain at amrywiaeth helaeth o fanteision sydd wedi'u crynhoi isod. Roedd rhai wedi'u disgwyl er bod rhai annisgwyl wedi'u nodi gan yr awdurdod yn sgîl eu profiad o ddarlledu cyfarfodydd ar y we.

### Ymgysylltu a thryloywder

- Llywodraethu ac atebolrwydd mwy agored a thryloyw.
- Ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a'u galluogi i ddeall prosesau penderfynu.
- Galluogi pobl i wylio cyfarfodydd yn haws – llai o deithio, a mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gallan nhw eu gwylio.
- Helpu pobl i ddeall swyddogaeth pwyllgorau trosolwg a chraffu yn unol â Mesur 'Llywodraeth Leol' Cymru 2011.
- Hybu rhagor o ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol tra bo cyfarfod yn mynd rhagddo.
- Rhoi papurau a chyflwyniadau pob cyfarfod ar gael i bobl yn ogystal â'r fideos.
- Hyrwyddo'r cyngor ymhlith y trigolion am y gallen nhw ystyried ei gyfarfodydd yn fwy adeiladol nag amser holi Prif Weinidog Llywodraeth San Steffan, er enghraifft.

### Manteision i'r cyngor

- Hwyluso presenoldeb o hirbell mewn cyfarfodydd – un o opsiynau Mesur 'Llywodraeth Leol' Cymru 2011 fel y caiff cynghorwyr gymryd rhan mewn cyfarfod o fan cyfleus.
- Annog cynghorwyr i amlygu safonau uchel ynglŷn â phresenoldeb, ymgysylltu ac ymddygiad mewn cyfarfodydd.
- Cyfleu gwybodaeth a phenderfyniadau allweddol yn fwy effeithiol i swyddogion ac i gynghorwyr eraill.
- Rhan ddefnyddiol o raglenni cyflwyno a hyfforddi cynghorwyr a swyddogion.
- Cyfle i gynghorwyr ddysgu arferion da trwy wylio cynghorwyr eraill a chyfle i hysbysu darpar gynghorwyr am eu rôl i hybu adnewyddu democrataidd.
- Llai o ymholiadau o'r wasg am y gall newyddiadurwyr wylio'r darllediadau bellach yn hytrach na gofyn am ddyfyniadau.
- Angen llai o le i'r cyhoedd mewn cyfarfodydd am bynciau poblogaidd neu ddadleuol.
- Defnyddio'r offer a'r lleoliadau i ddibenion eraill megis hyfforddi staff a chyfarfodydd rhwng awdurdodau.
- Rhoi cofnod cywir o bob cyfarfod gan helpu i fireinio'r cofnodion a rhwystro pobl eraill sydd wedi ffilmio cyfarfod rhag camddefnyddio 'uchafbwyntiau wedi'u golygu'.

## Anawsterau gweddarlledu

Mae rhai pryderon wedi'u mynegi am gostau gweddarlledu am ei fod yn cael ei gyflwyno ar adeg pan fydd cyllidebau'r cynghorau lleol yn crebachu'n fawr. Y prif gostau yw prynu neu logi'r offer a thalu am amser y staff fydd yn eu defnyddio.

Y gorchwyl pwysicaf i'r awdurdodau lleol bellach yw cymharu'r costau â'r buddion i weld a yw'n werth darlledu cyfarfodydd ar y we. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cydweithio ag WLGA a'r awdurdodau lleol i arbed arian trwy gaffael ar y cyd. Yn y dyfodol, efallai y bydd gweddarlledu'n eu helpu i arbed arian a chodi incwm trwy, er enghraifft: talfyrru'r cofnodion a'u defnyddio i gofrestru penderfyniadau yn hytrach na'r drafodaeth i gyd; rhoi offer ar log; treulio llai o amser wrth brosesu ceisiadau sy'n ymwneud â Deddf 'Mynnu Gwybodaeth' (yn ôl tystiolaeth ddiweddar) am fod modd gwylio cyfarfodydd yn hawdd.

## Blogiau, trydar a ffilmio yn ystod cyfarfodydd

Mae tua hanner awdurdodau lleol Cymru yn gadael i'w cynghorwyr ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd. Bydd rhai o blith y cyhoedd a'r wasg yn ffilmio cyfarfod weithiau, er bod angen caniatâd i wneud hynny fel arfer.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfryngau cymdeithasol wedi ennill eu plwyf a'u bod o gymorth ar yr amod bod cynghorwyr yn eu defnyddio'n briodol. Mae awdurdodau sy'n rhwystro cynghorwyr rhag eu defnyddio yn gwneud hynny i'w hannog i ganolbwyntio ar y materion sydd o dan sylw ym mhob cyfarfod. Mae lle i'r cynghorwyr ystyried yr argraff y gallen nhw ei chyfleu i'r cyhoedd pe baen nhw wrthi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod trafodaeth, pleidleisio neu benderfynu.

Dyma ganllawiau WLGA i gynghorwyr ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol:
[http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cynorthwyo-a-datblygu-cynghorwyr1/cyfryngau-cymdeithasolcanllaw-i-gynghorwyr](http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cynorthwyo-a-datblygu-cynghorwyr1/cyfryngau-cymdeithasolcanllaw-i-gynghorwyr)

## Deddfau a phrotocolau sy'n berthnasol i weddarlledu

### Deddf 'Diogelu Data'

Mae'n annhebygol y bydd Deddf 'Diogelu Data' yn effeithio ar ddarlledu cyfarfodydd y cynghorau am nad oes modd trafod gwybodaeth bersonol mewn cyfarfod cyhoeddus ni waeth a yw'r cyfarfod hwnnw'n cael ei ddarlledu neu beidio. Pan fo angen trafod unrhyw eithriad – lle na fydd modd i'r cyhoedd na'r wasg fod yn bresennol – rhaid diffodd yr offer a rhoi neges sy'n esbonio pam nad yw'r darllediad ar gael am y tro.

### Deddf 'Mynnu Gwybodaeth'

Ddylai Deddf 'Mynnu Gwybodaeth' ddim fod yn berthnasol i ddarllediadau chwaith achos mai dim ond â gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd eisoes mae'n ymwneud. Does dim rhaid i'r cyngor ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd wedi'i darlledu neu sydd ar gael trwy archif cyfarfodydd y wefan.

### Hawlfraint

Y cyngor yw 'awdur' gweddarllediad boed gyfarfod mae'n ei ddarlledu'n fyw neu un sydd mewn archif. Fydd neb yn cael ei ddefnyddio heb ganiatâd y cyngor. Mae'n annhebygol y byddai'r cyngor yn mynd i'r gyfraith pe bai darllediad wedi'i ddefnyddio i ddibenion dilys megis hysbysu neu hyfforddi, er enghraifft.

Byddai modd i'r cyngor fynd i'r gyfraith pe bai darllediad wedi'i ddefnyddio'n amhriodol ar gyfer gwleidydda neu ddychanu, er enghraifft. Rhaid i wefannau lledaenu fideos megis YouTube a Google Video ddweud yn yr amodau a'r telerau fod angen hawlfraint a chaniatâd pawb sydd yn y fideo cyn ei chyhoeddi yno.

## Caniatâd

Pan ddechreuwch chi ddarlledu ar y we, dylech chi siarad â phawb allai gymryd rhan yn y cyfarfodydd i ofalu eu bod yn fodlon cael eu ffilmio. Efallai y bydd rhai pobl yn gofyn am gyrsiau datblygu neu hyfforddi cyn cytuno.

Wrth ledaenu'r agenda, rhaid rhoi gwybod y byddwch chi'n darlledu'r cyfarfod. Cewch chi dybio wedyn fod pawb sy'n bresennol wedi cytuno i gael ei ffilmio a chytuno i'r fideo gael ei defnyddio yn y dyfodol, hefyd.

Ar ddechrau pob cyfarfod sydd i'w ffilmio, dylech chi gyhoeddi y byddwch chi'n darlledu'r cyfarfod yn fyw ac yn ei chyhoeddi ar y we i'w gwylio wedyn, hefyd. Ddylech chi ddim darlledu unrhyw drafodaeth am faterion cyfrinachol na'r rhai sy'n rhydd rhag amodau Deddf 'Mynnu Gwybodaeth'.

## Pleidleisio

Fydd gweithdrefnau pleidleisio ddim yn newid. Dylech chi weld gweddarlledu'n ffordd o ychwanegu at agwedd agored cyfarfod sy'n gyhoeddus ei natur beth bynnag. Bydd modd pleidleisio naill ai trwy ddangos llaw neu ddefnyddio sustem electronig y cyngor. Fe fydd pobl yn cael gweld sut mae cynghorydd wedi pleidleisio, yn ôl y sustem sydd ar waith.

## Dod â gweddarllediad i ben

Bydd y cadeirydd yn cael dod â'r darllediad i ben neu dorri ar ei draws fel y gwêl yn dda os yw o'r farn y byddai'n amharu ar waith y cyfarfod trwy barhau i'w ddarlledu. Er enghraifft:

(i) Pe bai anghydfod cyhoeddus yn torri ar draws y cyfarfod.

(ii) Lle y cytunwyd na ddylai'r cyhoedd na'r wasg fod yn bresennol.

(iii) Lle mae'r cadeirydd a'r pwyllgor yn cytuno y byddai darlledu'n amharu ar waith y cyfarfod.

## Golygu gweddarllediad

Mae'n amlwg nad oes modd golygu rhywbeth tra boch chi'n ei ddarlledu'n fyw. Felly, pe bai cynghorydd yn dweud rhywbeth amhriodol, sarhaus neu anghyfreithlon, fe ddylai'r cadeirydd ofyn iddo ymddiheuro yn syth. Mae modd golygu'r fideo wedyn. Yn wir, gan fod y deunydd sydd yn yr archif ar gael i'r cyhoedd, fe allech chi gyflawni trosedd trwy beidio â dileu cynnwys sarhaus megis sylwadau hiliol anfwriadol. O gyhoeddi unrhyw sylwadau difenwol, byddwch chi'n agored i achos sifil. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe gewch chi roi 'bib' yn eu lle. Anaml y bydd angen golygu fideo ond, mewn achos o'r fath, dylech chi gadw copi o'r fideo cyn ei golygu am y gallai fod ei hangen rywbryd.

# Medrau personol

## Yr olwg sydd arnoch chi

Bydd rhai medrau a mathau o ymddwyn y dylech chi eu cadw mewn cof wrth ymddangos mewn gweddarlledabout. Gallai'r ystyriaethau isod fod o gymorth i chi:

- Peidiwch â symud yn ormodol! Gall gormod o symud amharu ar ansawdd y darlun a'i gwneud hi'n anodd i'r camera eich dilyn. Gallech chi ymddangos yn drwsgl wrth blygu i siarad trwy feicroffon ac, felly, mae rhai cynghorau lleol yn ystyried newid gweithdrefn eu cyfarfodydd fel y bydd cynghorau'n cael parhau ar eistedd yn eu cadeiriau.
- Wrth ystyried eich gwisg, rhaid cadw pob un o onglau'r camera mewn cof a gofalu nad ydych chi'n gwisgo dillad na gemwaith a allai gyffwrdd â'r meicroffon a rhwystro gwylwyr rhag clywed eich geiriau. Mae cadwyn y maer yn arbennig o debygol o wneud hynny!
- Peidiwch â gwylio'r darllediad yn fyw trwy'ch teclyn eich hun am y gallai hynny amharu ar ansawdd y sain.
- O siarad ag aelodau eraill, bwyta ac addasu'ch dillad yng ngolwg y camera, gallech chi dynnu sylw'r gwylwyr oddi wrth y sawl sy'n siarad os ydych chi y tu ôl iddo.
- Mae iaith y corff yn bwysig. O fethu ag eistedd yn unionsyth, gallech chi gyfleu argraff eich bod wedi colli diddordeb. O gau'ch llygaid, gallai pobl feddwl eich bod yn cysgu.

## Siarad

Er bod y rheolau cyffredinol am siarad yn gyhoeddus yn berthnasol i bob cyfarfod, mae rhai mathau o ymddygiad fydd yn eich helpu i ymddangos yn dda mewn darllediad fel y bydd y cyfarfod yn fwy diddorol a defnyddiol i'r gwylwyr. Yn anad dim, dylech chi fod yn naturiol!

- Siarad yn gryno heb fod yn hirwyntog.
- Osgoi siarad yn gyflym. Os ydych chi'n baglu dros eich geiriau, efallai eich bod yn rhuthro trwy'ch araith.
- Paratoi eich cyfraniad (bydd pwyntiau bwled yn eich galluogi i siarad yn naturiol heb ymddangos fel pe baech chi'n darllen araith).
- Bod yn effro i'r modd y gallai'r gynulleidfa ddehongli'ch negeseuon – eich geiriau a'r modd rydych chi'n eu dweud.
- Gallai fod angen egluro rhai pethau er gwybodaeth i'r lleygwyr. Wrth ddatgan unrhyw fuddiannau, er enghraifft, fe fyddai o gymorth pe gallech chi ddweud nid yn unig eich bod yn ymwneud â rhyw fater ond, hefyd, a ydych chi'n ymwneud ag e mewn modd personol neu niweidiol a sut rydych chi'n bwriadu gweithredu o ganlyniad.
- Osgoi jargon ac 'ieithwedd y cyngor' – mae hynny'n berthnasol i'r swyddogion hefyd!
- Mae'n anodd torri ar draws rhywun sy'n siarad mewn darllediad achos mai dim ond y cadeirydd a'r sawl sy'n siarad y bydd y gwylwyr yn eu gweld, fel arfer. Yn aml, fe fydd unrhyw sylwadau eraill yn annealladwy achos nad yw'r meicroffon yn ddigon agos.
- Gofalu eich bod yn ddigon agos at y meicroffon a'ch bod yn ei wynebu drwy'r amser. Ddylech chi ddim siarad nes y daw'ch golau ymlaen

neu, fel arall, fydd neb yn clywed eich geiriau cyntaf! Rhaid diffodd eich meicroffon ar ôl ichi orffen siarad.

- Bod yn effro i'r modd y gallai'r cyfryngau ddefnyddio'ch sylwadau.

### Medrau cadeirydd

Mae cadeirydd y cyfarfod yn hanfodol i'r gwylwyr fel pe baen nhw'n gynulleidfa yn y fan a'r lle. Dyma rai awgrymiadau y gallai cadeiryddion eu hystyried:

- Cyflwyno'r bobl allweddol fydd yn cymryd rhan yn y cyfarfod fel y bydd y gwylwyr yn gwybod pwy ydyn nhw (swyddogion, tystion a'r cadeirydd ei hun, wrth gwrs). Mae'n bwysig dweud beth yw rôl pawb yn y cyfarfod, hefyd.
- Esbonio rhai o weithdrefnau'r cyfarfod os na fyddan nhw'n amlwg i'r gwylwyr. Pan fo egwyl, er enghraifft, rhaid esbonio'r rheswm dros hynny a phryd y bydd y cyfarfod yn ailddechrau.
- Gorfodi pawb i orffen cyn pen hyn a hyn o amser – naill ai trwy weithdrefn ffurfiol neu trwy dorri ar draws rhywun mae'i gyfraniad yn un hir nad yw'n gynhyrchiol.
- Atgoffa pawb bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu ac y bydd ar gael ar y we wedyn.
- Esbonio amryw elfennau'r agenda megis mater er gwybodaeth, mater mae angen penderfynu arno a mater mae rhaid pleidleisio arno. O dorri ar draws darllediad am unrhyw reswm megis trafod materion cyfrinachol, dylech chi esbonio pryd y bydd yn digwydd a pham.
- A chithau'n gadeirydd, gallai fod angen ichi drin a thrafod offer megis sustem cynffon a chaniatâd y siaradwyr. Dylech chi ofalu eich bod yn gwybod sut mae'i defnyddio.

## Cyfleoedd yn y dyfodol

Fel y bydd gweddarlledu a'i dechnoleg yn datblygu, bydd modd defnyddio cyfleusterau gweddarlledu i wella ac ehangu nifer o weithgareddau'r cyngor.

Gan gynnwys:

- Cyfathrebu'n fyw â chynghorwyr a swyddogion trwy'r Rhyngrwyd i ddibenion megis cyfarfod hysbysu gan yr arweinydd neu'r prif weithredwr.
- Sesiynau hyfforddi – naill ai'n fyw neu wedi'u recordio – i'ch cyngor chi ac, o bosibl, i bob cyngor arall wedyn.
- Mwy a mwy o ymgysylltu â darllediadau trwy gyfryngau cymdeithasol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw.
- Cysylltu'n fyw mewn cyfarfodydd â grwpiau cymunedol ac ysgolion ar gyfer trafodaeth am gynlluniau a pholisïau.
- Cyfleoedd i 'hysbysebu' gwasanaethau'r cyngor a darlledu er gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae technoleg gweddarlledu'n fan cychwyn galluogi cynghorwyr i gymryd rhan o hirbell yn y cyfarfodydd. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob cyngor ddatgan yn ei gyfansoddiad sut y bydd presenoldeb o hirbell ar gael yn ystod ei gyfarfodydd. Dyma ragor o wybodaeth:

[http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/statutory-guidance-section-4-remote-attendance/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/statutory-guidance-section-4-remote-attendance/?skip=1&lang=cy)

## Gwylio darllediadau awdurdodau lleol eraill (dim ond yn Saesneg)

| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | http://www.blaenau-gwent.public-i.tv/core/ |
| Bannau Brycheiniog | http://www.breconbeacons.public-i.tv/core/ |
| Caerdydd | http://www.cardiff.public-i.tv/core/ |
| Sir Gaerfyrddin | http://www.carmarthenshire.public-i.tv/core/ |
| Ceredigion | http://new.livestream.com/ceredigion/events/2493787 |
| Conwy | http://www.conwy.public-i.tv/core/ |
| Sir Ddinbych | http://www.denbighshire.public-i.tv/core/ |
| Sir y Fflint | http://www.flintshire.public-i.tv/core/ |
| Casnewydd | http://www.newport.public-i.tv/core/portal/home |
| Sir Benfro | http://www.pembrokeshire.public-i.tv/core/ |
| Powys | http://www.Powys.public-i.tv/core/portal/home |
| Torfaen | http://www.torfaen.public-i.tv/core/ |

## Enghreifftiau o'i ddefnyddio yn yr awdurdodau

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen ddarlledu cyfarfodydd y cyngor cyflawn a'r cabinet ar y we yng ngwanwyn 2013. Ar ôl sefydlu cytundeb trwy'r prosesau arferol, gosododd cwmni public-i yr offer yn siambr y cyngor ym mis Awst 2013. Roedden ni o'r farn y byddai'n bwysig iawn hyfforddi'r cynghorwyr i gyd a'r swyddogion perthnasol (staff y gwasanaethau democrataidd sy'n cyflwyno adroddiadau'n fynych) gan ofyn i Melanie Doel (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) i'w hyfforddi. Hyfforddodd hi garfanau bychain o gynghorwyr a swyddogion dros nifer o wythnosau a sesiynau gan eu galluogi i drafod unrhyw bryderon neu faterion. Gan fod Melanie Doel yn newyddiadurwr profiadol ac yn aelod o awdurdod oedd wedi bod yn darlledu cyfarfodydd ar y we ers peth amser, gallai hi roi digon o awgrymiadau a llawer o hyder i'r rhai o dan hyfforddiant.

Dechreuon ni ddarlledu cyfarfodydd y cyngor cyflawn a'r cabinet ar y we fis Hydref 2013, yn ogystal â darlledu'r diweddaraf am y gyllideb gan aelod y cabinet dros adnoddau a thri seminar i gynghorwyr am inni eu hystyried yn rhai fyddai o ddiddordeb arbennig i'r bobl. Staff y gwasanaethau democrataidd a'r gwasanaethau i gynghorwyr sy'n defnyddio'r offer – a hynny'n fedrus iawn – gyda chymorth cwmni public-i o hirbell yn ôl yr angen. Cyn darlledu cyfarfod, byddwn ni'n ei hysbysebu trwy gyfryngau cymdeithasol ynghyd â linc ag agenda'r cyfarfod fel y gall pobl gweld yr hyn sydd i'w drafod o flaen llaw.

Mae'r wyth gyfarfod cabinet oedd wedi'u darlledu hyd at 10fed Mehefin 2014 wedi denu 6,373 o wylwyr (1,641 yn fyw a 4,732 trwy'r archif) – 797 y cyfarfod ar gyfartaledd. Mae wyth gyfarfod y cyngor wedi denu 9,154 o wylwyr (2,987 yn fyw a 6,167 trwy'r archif) – 1,144 y cyfarfod ar gyfartaledd. Mae'r tri seminar wedi'u gwylio 1,849 o weithiau (385 yn fyw a 1,464 trwy'r archif) – 616 y cyfarfod ar gyfartaledd (mae'r seminar am y gyllideb wedi'i wylio 1097 o weithiau). Mae'r diweddaraf am y gyllideb wedi'i wylio 519 o weithiau (1 yn fyw a 518 trwy'r archif). Fis Ionawr 2014, penderfynon ni ddarlledu cyfarfodydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu pan fydden nhw o ddiddordeb arbennig i bobl, hefyd. Hyd yma, rydyn ni wedi darlledu pedwar cyfarfod sydd wedi'u gwylio 987 o weithiau (156 yn fyw ac 831 trwy'r archif) – 247 y cyfarfod ar gyfartaledd.

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o staff y cyngor yn gwylio'r cyfarfodydd am yr hoffen nhw ddysgu rhagor am y modd mae'r cyngor, y cabinet a'r pwyllgorau'n gweithio, am eu bod yn ymwneud â rhai penderfyniadau neu am y byddai penderfyniadau o'r fath yn effeithio arnyn nhw. Rydyn ni'n gwybod bod trigolion y fro a phobl eraill ym myd llywodraeth leol ledled Cymru a'r tu hwnt yn eu gwylio, hefyd. Mae modd eu gwylio o unrhyw le, wrth gwrs. Allwn ni ddim nodi pwy yw'r gwylwyr na ble maen nhw ond mae'r sustem wedi cofnodi 8992 o gyfeiriadau unigryw. O blith y rheiny, mae 5,358 o bobl wedi gwylio un cyfarfod neu unwaith ac mae 3,634 wedi gwylio mwy nag un cyfarfod neu fwy nag unwaith. Gallai cyfeiriad unigryw gynrychioli unigolyn neu gylch o bobl megis cwmni lleol.

Dim ond lle i gynulleidfa fechan iawn (tua 20 o bobl) sydd yn siambr y cyngor ac, felly, mae'n amlwg bod gwaith y cyngor wedi cyrraedd miloedd o bobl na fydden nhw wedi'i weld fel arall. Mae'r cyngor o'r farn bod gweddarlledu'n well o lawer

ynglŷn â hyrwyddo agwedd agored, tryloywder a democratiaeth leol. Mae disgwyl y bydd y cyngor ar 24ain Mehefin 2014 yn penderfynu darlledu holl gyfarfodydd y pwyllgorau craffu a'r pwyllgorau dros gynllunio a thrwyddedu.

Mae'r cyfarfodydd, yr hyn sydd wedi digwydd ynddyn nhw a'r penderfyniadau sydd wedi deillio ohonyn nhw wedi bod yn destun cryn dipyn o drafod yn Nhor-faen yn ôl cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu. Mae pryderon sawl cynghorydd a swyddog am ddarlledu ar y we mewn angof ar y cyfan, achos bod pawb yn gyfarwydd â'r dull bellach ac wedi'i dderbyn yn rhan o'r trefniadau arferol. Mae lle i ddweud bod y cyfarfodydd yn fwy effeithlon ers cyflwyno darlledu am eu bod yn fyrrach, mae llai o ailadrodd ac mae tuedd i gadw at y materion o dan sylw. Does dim tystiolaeth bod pobl yn gyndyn o siarad ynddyn nhw o ganlyniad i'w darlledu, fodd bynnag. Ar wahân i'r darlledu, bydd cyfarfodydd yn mynd ymlaen yr un fath ag o'r blaen (er bod rhaid defnyddio'r un ystafell ar gyfer pob un) ond maen nhw wedi'u gwylio bron 19,000 o weithiau ychwanegol.

Y casgliad yw bod darlledu cyfarfodydd Tor-faen ar y we wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae'n amlwg ein bod wedi cyrraedd cynulleidfa enfawr newydd. Mae'r cyhoedd a'r staff wedi ymgysylltu â ni i raddau helaeth o ganlyniad i weddarlledu. Yr elfennau hanfodol yn y broses oedd arweiniad yr hoelion wyth, cefnogaeth y cynghorwyr a'r swyddogion (trwy'r cyngor cyflawn), hyfforddiant a sicrhad pobl oedd yn gyfarwydd â darlledu yn barod a'n hawydd ni i hybu ac agor democratiaeth.

Byddai CBS Tor-faen yn argymell pob cyngor i ddechrau darlledu cyfarfodydd ar y we.

## Cyngor Sir Powys

Datblygodd gweddarlledu ym Mhowys ar ôl darlledu un o gyfarfodydd y cyngor i ryw 2000 o bobl y tu allan i farchnad da byw'r Trallwng yn 2011. Roedd y cyngor wedi cwrdd yno i drafod materion ffermydd gwynt yn y sir.

Gan dybio y byddai cyfarfodydd yn neuadd y sir am ffermydd gwynt yn denu llawer o bobl o hynny ymlaen, penderfynodd y cyngor ystyried a fyddai modd rheoli nifer y bobl a ddaw yno a gofalu y gallai pawb a chanddo ddiddordeb yn y cyfarfodydd eu gweld yn haws trwy eu darlledu ar y we. Mae hynny wedi helpu'r cyngor i drefnu'r cyfarfodydd – a chan fod y staff sy'n ymwneud â'r broses yn brofiadol erbyn hyn, mae modd gwneud hynny'n gyflym.

Rhoes Llywodraeth Cymru £40,000 i'r cyngor ar gyfer gweddarlledu wedyn i ennyn diddordeb yn y syniad ymhlith cynghorau'r wlad a hwyluso rhagor o atebolrwydd a thryloywder yn eu gwaith.

Mae 17 cyfarfod ym Mhowys wedi'u gweld 23,395 o weithiau. Dyma enghreifftiau:

| | |
|---|---|
| Ffermydd gwynt mawr | 2705<br>2877 |
| Pwyllgor cynllunio | 1509<br>1301<br>1096<br>782 |
| Cyngor y sir | 1878 |
| Cyngor y sir – materion cyllidebol | 1804<br>3175 |
| Cabinet | 1731<br>1037 |
| Diwrnod dweud eich dweud (cyllideb) | 1951 |
| Pwyllgor craffu | 254 |

Mae nifer y gwylwyr wedi amrywio rhwng 150 a 490 ynglŷn â phedwar cyfarfod arall.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae awdurdod y parc cenedlaethol wedi bod yn darlledu cyfarfodydd yr awdurdod i gyd a'r pwyllgorau dros faterion cynllunio, archwilio a chraffu ers ychydig dros ddwy flynedd bellach. 31,500 yw cyfanswm y rhai sydd wedi'u gwylio. Ar gyfartaledd, mae cyfarfodydd awdurdod y parc cenedlaethol wedi'u gwylio 671 o weithiau. Mae cyfarfodydd pwyllgor y materion cynllunio wedi'u gwylio 556 o weithiau ac mae cyfarfodydd y pwyllgorau dros faterion archwilio a chraffu wedi'u gwylio 436 o weithiau. Mae cyfanswm y gwylwyr a nifer y gwylwyr ar gyfartaledd wedi parhau i gynyddu dros y ddwy flynedd ac mae cost pob gwylio wedi gostwng at 81c o'i chymharu â £2.40 ar y dechrau.

Dyma fanteision darlledu'n cyfarfodydd ni ar y we.

- Mae gweddarlledu'n annog pawb i lywodraethu'n dda a pharatoi'n dda ar gyfer y cyfarfodydd (aelodau a swyddogion fel ei gilydd).

- Mae cyfleoedd i ledaenu negeseuon ymhlith y cyhoedd yn wyneb beirniadaeth am ryw fater penodol.

- Mae cyfleoedd i aelodau roi adroddiadau am gyfarfodydd y buon nhw ynddynt neu achlysuron lle mae nhw wedi cynrychioli'r awdurdod, gan ddangos rôl ehangach yr aelod.

- Gall pobl weld Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiadau blynyddol am faterion gwella ac ymatebion yr aelodau (gan wrthod y casgliadau, weithiau).

- Gallwn ni logi cyfleusterau cyfarfod ynghyd ag offer gweddarlledu bellach (gallwn ni gynnal y cyfarfodydd naill ai yn ein hadeilad ni neu ar safleoedd y cwsmeriaid).

- Gallwn ni ymateb i honiadau nad yw materion wedi'u hystyried nac wedi'u trafod yn briodol trwy anfon linciau â'r trafodaethau perthnasol yn y cyfarfodydd. Gallwn ni brofi bod y cofnodion yn gywir, hefyd.

- Rydyn ni wedi defnyddio gweddarlledu ar gyfer cyflwyniadau mewn cyfarfodydd. Er enghraifft: yr Adran dros Faterion Diwylliannol, y Cyfryngau a Chwaraeon; Dŵr Cymru; Costain.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

- Darlledu'n rhaglen addysg ar y we.

- Cyfweld aelodau o ferched ar y we fel y gall Llywodraeth Cymru ac WLGA ddefnyddio'r fideos i hyrwyddo rôl merched yn ein bywyd cyhoeddus.

- Cyfweld aelodau am eu datblygu proffesiynol ar gyfer Breinlen Uwch Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.

- Ystyried defnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at bynciau penodol.

- Lledaenu'n hadroddiad ni am gyflwr y parc.

- Cynnwys rhagor o bobl ym mhroses gynllunio strategol y parc trwy eu gwahodd i adolygu cynllun rheoli'r parc cenedlaethol.

- Darlledu seminarau am bynciau megis gwasanaethau a mastiau ffonau symudol.